

ECO'R WYDDFA

Rhif 125

MAI 1987

Pris 20c

ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL

Ar ddydd Iau, Mai 7ed, bydd ardalwyr bro yr Eco, fel etholwyr y gweddill o'r wlad yn pleidleisio tros gynrychiolaeth ar ddau gorff llywodraeth leol.

Amcan yr ychyg sylwadau hyn yw cyflwyno braslun o fframwaith llywodraeth leol a fodola ar hyn o bryd.

Y mae i Lywodraeth Leol dri cyngor etholedig sef,

a) Cyngor Cymdeithas neu Gymuned

b) Cyngor Bwrdeistref (dosbarth)

c) Cyngor Sir

Yn sgil yr ad-drefnu mewn Llywodraeth Leol a fu yn y flwyddyn 1974 y daeth y cynghorau uchod i fod. Y mae i'r tri cyngor yr hawl i drethu yn osgystal â phwerau statudol eu hunain.

1. Cyngor Cymuned

Yr hen Gyngor Plwy' neu Gyngor Tref yw'r cyngor hwn a dyma'r corff etholedig agosaf i'r gymdeithas leol mewn pentref. Ar y cyngor hwn y mae nifer helaeth o gynrychiolwyr pentref neu bentrefi agos mewn un plwyf. Dyma'r cyngor sy'n gyfrifol tros

a) Llwybrau cyhoeddus

b) Mynwentydd

c) Goleuadau cyhoeddus

ch) Mynegi barn ar hawliau cynllunio

d) Dwyn sylw a mynegi barn ar faterion eraill i'r Cyngor Bwrdeistref a'r Cyngor Sir.

dd) Ymdrin ag unrhyw fater o berthynas bywyd beunyddiol trigolion y gymuned.

Felly, gwelwch fod i'r Cyngor hwn ei le arbennig iawn ym mywyd y gymdeithas leol y trigwch ynddi.

2. Cyngor Bwrdeistref - (Dosbarth)

Nid yw'r gynrychiolaeth ar y Cyngor hwn mor niferus o un pentref ac y mae ei diriogaeth yn helaethach na Chyngor Cymdeithas. Dyma un ffaith bwysig i'w chofio. Bu newid yn y gynrychiolaeth ers yr etholiad diwethaf. Er enghraifft, yn ardal Llanberis, Nant Peris, a Chwm-y-Glo yr oedd dau gynrychiolydd ar y Cyngor Bwrdeistref. Ond yn yr etholiad ar Fai 7ed, bydd trigolion Llanberis a Nant Peris yn pleidleisio tros un cynrychiolydd yn unig, tra y bydd ardalwyr Cwm-y-Glo yn pleidleisio tros eu cynrychiolydd hwy yn rhan Llanrug o'r fwrdeistref.

Prif bwerau statudol y Cyngor Bwrdeistref yw:-

a) Iechyd - adolygu sefydliadau megis tai bwyta, gwestai, siopau, ffatrioedd etc.

b) Tai Cyngor ac Ystadau Cyngor

c) Adloniant, mwynderau megis canolfannau hamdden a meysydd chwarae

ch) Hawliau Cynllunio

d) Rheolaeth ar adeiladwaith

dd) Rhai ffyrdd arbennig

e) Goruchwyliaeth tros garthffosaeth

f) Casglu Ysbwriel ac ysgubo strydoedd

Yn sicr y mae cyfrifoldeb y cyngor hwn yn eang a phwysig gan fod ei bwerau statudol yn ymdrin ag agweddion arbennig o fywyd pob un ohonom.

3. Y Cyngor Sir

Ni fyddwch yn pleidleisio am gynrychiolaeth ar y Cyngor Sir, ar Fai 7ed, bydd hyn yn cymryd lle yn y dyfodol.

Dyna fraslun brysiog tros fframwaith Llywodraeth Leol. Cofiwch am DDYDD IAU, MAI 7ed, 1987. Diwrnod yr Etholiadau. Annogaf ichwi i ddefnyddio eich pleidlais. Da chwi ewch i bleidleisio, dyma'r ffordd ddemocratig i sicrhau eich hawliau.

John H. Hughes, Llanberis

CYFARFOD AGORED I SEFYDLU CYMDEITHAS RHINIEN AC ATHRAWON YSGOL BRYNREFAIL

Cynhelir cyfarfod yn Neuadd yr Ysgol ar nos Wener, Mai 8fed am 7.00 pm.

Awgrymir ethol un cynrychiolydd ar gyfer dalgylch pob Ysgol Gynradd yn y lle cyntaf - sef Llanberis, Llanrug, Deiniolen, Cwm-y-Glo/Brynrefail, Bethel a Phenisarwaun - 6 i gyd. Etholir y 4 ychwanegol yn agored.

Hefyd ar y Pwyllgor fe fydd -

1. Y Prifathro a'r ddau Ddirprwy

2. Y ddau aelod o'r Llywodraethwyr a etholwyd gan rieni sef Mr Trefor Edwards a Mrs Helen Sutherland.

3. Pump o athrawon.

Pwrpas y Gymdeithas

(a) I ddod â rhieni ac athrawon yr Ysgol at ei gilydd i drafod problemau addysg gyfoes trwy gael siaradwyr gwâdd, seiadau holi, a.y.y.b.

(b) I drefnu cyfarfodydd cymdeithasol adloniadol a gweithgareddau eraill i godi arian er mwyn sicrhau adnoddau ychwanegol ar gyfer addysg y plant. Nid pwrpas y Gymdeithas fydd trafod disgyblion unigol, athrawon unigol, polisi'r Ysgol neu unrhyw broblem uniongyrchol yn ymwneud â'r Ysgol. Gellir gwneud hyn trwy gysylltu â'r Prifathro neu Cynrychiolwyr Rhieni ar y Llywodraethwyr.

Hyderaf y bydd nifer fawr o rieni yn mynychu'r Cyfarfod ac y caiff y Gymdeithas bob cefnogaeth.

Ar ôl y Cyfarfod fe fydd perfformiad o ddrama un act "Lledaenu'r Newyddion" a rhai eitemau cerddorol, a hyderaf y bydd rhieni yn aros ymlaen i'w cefnogi.


W.E.Thomas,
Prifathro

CAEL A CHAEL . . .

Unwaith eto, daeth yr Eco o'r Wasg mewn pryd - ond dim ond cael a chael fu hi y tro hwn. Fel y gwelwch ar dudalennau 8, 9, 10 ac 11 rhoir sylw i'r etholiadau lleol, a bu'r ffotograffwyr a'r datblygwyr wrthi tan berfeddion (yn llythrennol) yn cael y lluniau'n barod. Ymddiheurwn am fethu cynnwys rhai lluniau: mae ymgeiswyr eraill wedi dewis peidio rhoi llun.


Bu'n rhaid gadael newyddion lleol allan o adroddiad ambell i bentref - a hynny oherwydd iddynt beidio a chyrraedd mewn pryd. Da chwi, daliwch sylw o'r dyddiad ar dudalen 2. Os na fydd y deunydd yn nwylo'r golygyddion ar y dyddiad cywir, bydd yn rhy hwyr cwyno am nad oedd eich newyddion arbennig chwi yn y papur.

Rogog



Oherwydd dyfeisgarwch gŵr sy'n enedigol o Ddeiniolen, ond sy'n awr yn byw'n y Rhiwlas, mae peiriant addas ar gael erbyn hyn sydd o fudd i arddwyr - pa fath bynnag o ardd sydd gennych. Dyna yn syml yw ROGOG: sef peiriant rhidyllu pridd y gellir ei ffitio ar ddril Black and Decker. Ac er mwyn hwyluso'r gwaith, gellir dewis rhidyll addas ar gyfer y defnydd priodol - un brâs ar gyfer y lawnt neu un mân i'r tŷ gwydr.

Aeth R Hefin Williams ati i gael 'patent' ar ei ddyfais, ac y mae'r ROGOG eisoes ar waith ar dir Antur Waunfawr, ac yn cael ei arddangos mewn canolfan arddio ym Mangor a Llandudno.



Gwahanol rannau'r ROGOG - sut i'w ffitio gyda'i gilydd.

Mae'r ROGOG yn arbennig o ddefnyddiol mewn gardd fechan, neu ble bo angen rhidyllu bordor, oherwydd gall ddal tua 4 rhawiad o bridd ar y tro. Mae hefyd yn hawdd ei wagio, gan roi'r cerrig mewn Gardd Greigiog neu fel sylfaen i lwybr. Gellir wedyn lusgo'r ROGOG ymlaen fel y bo uwchben y rhan sydd newydd ei glirio. A phe bai angen cario pridd wedi ei ridyllu o un rhan o'r ardd i'r llall, yna mater bach yw tynnu coesau'r ROGOG, a'i ffitio'n daclus uwchben y ferfa.

Ac i'r rhai ohonoch sy'n dal mewn penbleth ynglŷn ag enw'r ddyfais arbennig hon - trowch y ROGOG o'r tu chwith - a dyna i chi GOGOR!

ECO'R WYDDFA

RHIF 125
MAI 1987

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas,
Bron-y-Nant, Pontrhyallt, Llanrug.
(C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI:
Amranwen Lynch, Gwyddfor,
Penisarwaun (Llanberis 870575).

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs Olwen
Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug.
(Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithnog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniol (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes
Eilian. (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl
Elidir, Llanberis.

LLANRUG: Mrs Gillian Morris,
Anedd Wen, Tal-y-bont.
(Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs Mary Ff. Roberts,
Cerrig-y-drudion, Nant Peris.
(871327)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
MAI 28ain
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
MAI 19eg
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

DARGANFYDDIAD HANESYDDOL

Annwyl Olygydd,

Roedd eich adrodiad am
ddarganfyddiad hanesyddol lleol
o gryn gyfaredd i fy mab, sydd yn
ymddiddori yn y meysydd
hynny.

Mae'n ymddangos ei fod wedi
treulio cyfnod yn gwersyllu
mewn ardal diarffordd yng
Nghernyw, a chan ei fod ar yr un
pryd yn dysgu'r iaith Gernyweg,
cafodd dderbyniad twym i
gymdeithas y brodorion. Ar rhyw
sgwrs, darfu iddynt ddadlennu
iddo, eu bod ers dim llawer, yn eu
plwyf, wedi darganfod siambr
gyffelyb i'r hon a ddarlunir yn yr
Eco. Nid claddfa mohoni fodd
bynnag, ond ystofa drysorau, a
elwir yn nhermau'r
hynafiaethwyr, yn fogau.

Yn ôl fy mab, bu'r Cernywiaid
hyn, yn hwy eu pennau o lawer
na Chymdeithas Hanes Bro'r Eco.
Wnaethon nhw ddim peth mor
ffôl ag udganu'r ffaith yn y
papurau. Yn hytrach, darfu
iddynt arloesi'r safle yn
gyfriachol, a doeth ar eu rhan
oedd hynny, oblegid ym mhen
amser, daethant o hyd i 'lond trol'
(eu dyfyniad) o drysorau aur ar
ffurf torchau gwddf, modrwyau a
chlustdlysau, a hefyd rai arfau
addurnedig, a oeddent yn
debygol o fod wedi eu defnyddio
ar achlysuron seremonïol.

Bu i'r brodorion hyn, ganfod
marchnad gudd a pharod i'r
drysorfa yma yn Llundain a
meysydd lletach fel Paris ac
Efrog Newydd. O ganlyniad, nid
oes angen iddynt mwyach grafu
bywoliaeth o fas-dir eu tyddynod
tlawd. Mae gan bob un ei Rolls,
ac y mae ganddynt hefyd bac o
fytheuaid, a chotiau cochion a
phob math o baraffernalia sydd
yn gweddu â gweithgareddau
felly. Yn amlwg dydy'r gosodiad
'Treasure Trove' ddim yn rhan
o'u chwedloniaeth.

Doedden nhw ddim yn
gor-bryderu am deimladau
perchennog y tir chwaith. Roedd
o yn Winchester ar y pryd, ond
pan ddychwelodd i'w dŷ haf,
ffromodd hynny ar y Cernywiaid
ddim. Rhoddasant fflagl o dan y
tŷ, ond dydyn nhw ddim mor
ffysi â Meibion Glyndwr mae'n
rhaid. Roedd y dyn yn digwydd
bod ynddo ar y pryd, ynghyd â
rhyw fflachan oedd yn bwrw'r
Sul yn ei gwmni, a buont yn
ffodus i ddianc cyn i ymylon eu
cobenni ddechrau cipio, a
welwyd yr un o'r ddau yn yr
ardaloedd hyny wedyn.

Mae'n ymddangos, o gymharu
dulliau, fod Cymdeithas Hanes
Bro'r Eco, wedi ei 'methik i
Bosyl' ys dywed y Cernywiaid.
Fasach chi ddim yn dweud?

Yn ffyddlon,
John E. Williams

Rhifyn "Ffwl Ebrill" oedd y rhifyn
diwethaf wrth gwrs!!

Gol.

YSGOL Y WAUNFAWR

Annwyl Olygydd

Diddorol iawn i mi fel un a
anwyd yn y Waunfawr, oedd
gweld llun o blant ysgol y Waun,
yn arbennig felly gan fy mod i yn
y dosbarth hwn. Dechreuais i yn
yr ysgol ym mis Medi 1929, yr
oeddwn wedi troi pump oed yn
cychwyn. Roedd tri dosbarth yn
ysgol y babanod a adnabyddid
gennym fel 'Babies', 2nd class a
1st class. Roeddwn yn rhy hen i'r
'babies', ac felly dechreu yn y
dosbarth canol, ond buan iawn y
cefais fy symud i'r 1st class.
Roedd pawb yn y dosbarth hwn
ac eithrio Eirian Barlow flwyddyn
yn hŷn na mi, ni ein dwy oedd yr
unig rai i fynd i 'Standard 1' ym
mis Medi 1930 o dan saith oed.
Credaf i'r llun yma gael ei dynnu
yn y gwanwyn neu'r haf 1930.
Tybed oes rhywun a all enwi
pawb sydd yn y llun? Credaf fy
mod i yr ail o'r dde yn yr ail res o'r
top. Rwy'n adnabod Agnes ac
Edith, Tyn y Wern, Owen Wyn a
Doris, Graianfryn, ac Emyr, Cefn
y Waun. Miss J. Williams.,
Talysarn a arferai letya ym
Manchester House oedd yr
athrawes sefydlog, a byddai
stiwdent yno yn aml. Cofiaf un
tro i Miss Williams fod yn
absennol o'r ysgol ac athrawes
ddieithr yno yn ei lle. Roedd hi yn
galw enwau'r plant allan yn
unionfelyr oeddynt yn y cofrestr,
ac enw iawn rhai o'r plant yn
wahanol i beth oeddym ni yn eu
galw. Dyna sut y deallais mai
Annie Catherine oedd Nancy
Roberts ac Annie oedd Nancy
Hughes, ac mai Mary oedd
Mimmie Griffiths. Tybed i'r llun
hwn gael ei dynnu yn y cyfnod
pan oedd Miss Williams yn
absennol? Nid oes gen i lun
dosbarth am y flwyddyn hon.
Cofiaf mai lluniau bychan tebyg i
lun passport oedd y lluniau
unigol. Os oes rhywun a mwy o
wybodaeth am y llun buaswn yn
falch o gael gwybod.

Yr eiddoch yn gywir,
Elizabeth Edwards,
(Pen y Bryn gynt)

CWRS DRAMA IEUENCTID CYMRU

Annwyl Olygydd,

'Rwy'n ysgrifennu atoch ar ran y
Pwyllgor sy'n trefnu'r cwrs uchod -
taflen yn amgaaedig. Rydym yn
awyddus iawn i sicrhau fod pobl ifanc
pob ardal yng Nghymru, ac yn
arbennig bobl ifanc nad ydynt
bellach yn derbyn addysg ffurfiol, yn
cael cyfle i ymaelodi yn y cwrs hwn.

Fe sylwch mai 1af Mai yw'r
dyddiad cau i dderbyn ceisiadau.
Byddem yn falch dros ben pe gallech
gyflwyno'r wybodaeth hon yn rhifyn
Ebrill o'ch papur bro.

Yn gywir iawn.
J. Clifford Jones
Dirprwy Gyrafwyddwr
Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru

CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR

OES 'MA BOBOL?

Annwyl Olygydd,

'Oes 'ma Bobl?' Dyna gyfarchiad Mrs
Tomas Pen Lôn bob tro y byddai hi'n
galw i weld Nain, Monfa, ers 'stalwm.
A deud y gwir 'roedd ei chyfarchiad
hi'n reit farddonol:

Oes 'ma bobl yn y babel
Oes 'ma le i Bostman o bell

Wel, 'oes 'ma bobl' fydd fy nghyfar-
chiad inna' cyn bo hir ar Radio
Cymru. Syniad y gyfres yn syml ydi
'mod i'n picio i mewn i'ch tŷ chi, i gael
ei hanes o, a tharddiad yr enw os oes
'na stori ddiddorol tu ôl i'r enw
hwnnw.

(Glywsoch chi am y dyn fedyd-
diodd ei dŷ yn 'Dan-y-Don' oherwydd
ei fod o bron a boddi o dan bwysau'r
taliadau morgais!)

Felly os 'Da chi'n byw mewn tŷ efo
hanes diddorol iddo fo, neu'n
gwybod am dai diddorol yn y cylch
anfonwch air at:

Hywel Gwynfryn
Ystafell 3007
Canolfan y BBC
Llandaf
Caerdydd
CF5 2YQ

Annwyl Olygydd,

Ar drothwy Wythnos Cymorth
Cristnogol eleni (11-16 Mai), dymunaf
ar ran staff Cymorth Cristnogol yng
Nghymru fynegi ein diolch cynnes iawn i
bawb yn eich bro a fu mor garedig â
chyfrannu tuag at ein amrywiol
brosiectau yn ystod y deuddeg mis
diwethaf. Mawr diolch i unigolion,
eglwysi a chymdeithasau am eu
cefnogaeth hael.

Calonogol iawn yw cydnabod y
cyfanswm rhagorol o £285,000 a
gasglwyd yng Nghymru yn ystod
Wythnos Cymorth Cristnogol y llynedd.
Mae'r swm hefyd yn her inni wireddu'r
thema eleni. "Mwy o rym i'r tlawd".

Da gwybod am y gwaith cyd-eglwysig
a wneir yn eich cylch a hyn yn arwydd o'r
gefnogaeth a roddir gan y pwyllgorau
lleol wrth iddynt drefnu amrywiol
weithgareddau yn ystod yr Wythnos a
mawr hyderwn y bydd pawb ohonoch yn
ymuno â'r gweithgareddau yn eich cylch
eleni eto gan sicrhau llwyddiant yr
ymdrech.

Tristwch o'r mwyaf yw gweld a
chlywed am gyflwr y tlawd led-led byd a
hwythau heb y grym a'r gallu i reoli eu
bywydau eu hunain, o leiaf maent yn
amddifad o'r hawliau sylfaenol i drefnu
eu bywydau. Mae hyn yn gwbl
anghyfiawn. Ceisio unioni'r anhegwch
hwn a rhoi i bobl y grym sydd ei angen ar
y tlawd i helpu eu hunain yw amcanion y
prosiectau a gefnogir gan Gymorth
Cristnogol.

Os gwelwch yn dda, rhoddwch yn hael
i'r casglwyr gwirfoddol a ddaw at eich
drws yn ystod yr Wythnos.

Gallaf eich sicrhau y bydd pob
cyfraniad yn fodd i roi "Mwy o Rym i'r
Tlawd" trwy ein prosiectau bwyd,
iechyd, addysg, dŵr a dyfrhau, gan roi
budd cymunedol, cymorth brys a lloches
yn ôl y galw.

Gyda phob dymuniad da i'ch papur
bro a'r gweithwyr teyrngar.
Yn ddiffuant iawn,

Wyn Vittle
Ysgrifennydd Cymru

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

MERCHED Y WAWR: Nos Fercher. Ebrill 8ed, cafwyd noson ddifys iawn yng nghwmni Medwyn Williams. Llanfairpwll. Mae Mr Williams yn arddwr o fri, ac wedi ennill nifer fawr o wobrau wrth arddangos llysiau mewn sioeau led-led Pydain. Dangosodd sleidiau ar y cynnyrch yn yr amryw sioeau hyn, ynghyd â chynnyrch yn ei ardd ef ei hun. Diolchwyd iddo gan Mrs. Mair Jones, Glan Gors. Darparwyd y te gan Mrs. Sian Hughes a Mrs. Gwyneth Hughes, Mrs. Mair Price a Mrs. Mabel Jones.

Daeth Miss Rhiannon Ellis, Caernarfon atom, i'r aelodau lenwi Holiadur ar gyfer Cyfarfod Cenedlaethol y Mudiad yn Aberystwyth.

Anfonwyd £20 at Apêl y Sganiwr, arian a gasglwyd wedi'r Swper Gŵyl Ddewi. Diolchwyd i nifer o'r aelodau am gymryd rhan yng ngemau Rhanbarth Arfon y Mudiad, yn y Ganolfan yng Nghaernarfon yn ddiweddar.

Dewiswyd y Swyddogion canlynol am y flwyddyn 87/88. Llywydd - Mrs Lynwen Morris; Is-lywydd Mrs Meinir Roberts; Ysgrifennydd Mrs Gwyneth Williams; Is-ysgrifennydd Mrs Nora Parry; Trysorydd Mrs Eryl Roberts; Is-drysorydd Mrs Mary Evans. Aelodau'r Pwyllgor: Mrs Sheila Roberts, Mrs Elizabeth Jones, Mrs Ellen Ellis, Mrs Glenys Griffiths, Mrs Wena Huws, Mrs Gwyneth Hughes.

Ar Fai 13eg, bydd Cangen Rhostryfan yn ymweld â ni am noson adloniadol ysgafn. Darperir swper gan aelodau'r Pwyllgor.

CAPEL BETHEL: Cynhaliwyd noson goffi lwyddiannus ar Nos wener Ebrill 3ydd, yn Festri'r Capel. Gwnaed elw o £130. Enillwyr - y tedi, Llinos Rees; Pwysau'r deisen, Mrs M.G. Williams; cyfrif y smarties, Mrs Doreen Walley. Helfa Drysor 1. Mr Goronwy Jones, 2. Awena Jones, Stad Eryri. Dymuna'r merched ddiolch yn fawr i bawb am eu rhoddion a'u cefnogaeth.

DIOLCHIADAU: Dymuna Gweno Owen, Crud yr Awel, ddiolch i'w theulu, ffrindiau, a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 18oed ar Fawrth 15ed.

ARHOLIADAU PIANO: Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yn eu haroliadau Piano yn ddiweddar. Llinos Angharad Morris, disgybl Mrs Glenys Griffiths; Menna Damcey Williams - disgybl Ann Hopcyn; Esyllt Môn Jones, Lynne Roberts, Manon Elis, Non Ll. Jones, disgyblion Mrs H. Williams.

LLONGYFARCHIADAU: I Tegwen Williams, Granville, ar ei dyweddian â Dilwyn Morris, Merddyn, Ceunant, Llanrug.

PRIODAS: Dydd Sadwrn, Ebrill 11eg, yng Nghapel y Cysegr, priodwyd Miss

Valerie Lynn Owen, 37 Bro Rhos â Guardsman David Gwyn Morgan. Porthdafarch, Rhoslan, y ddau o Bethel. Dymuniadau gorau i'r ddau.

Dydd Sadwrn Ebrill 25ain, yng Nghapel y Cysegr priodwyd Miss Menna Deulyn Williams, Minffordd â John Coles, o Henley on Thames. Byddant yn cartrefu yn Sawtry, Sir Caergrawnt. Dymuniadau gorau i'r ddau.

CYDYMDEIMLAD: Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs L. Jones, Isfryn a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Mr William Jones, wedi gwaeldd hir yn Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon.

YR URDD: Mae dau barti o blant yr Urdd yn mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol ym Merthyr Tydfil ddiwedd Mai. Nos Wener Mai 8ed, trefnir taith gerdded o Ddinorwig i Nant Peris, i holl blant Yr Urdd, yng nghwmni aelodau o'r pwyllgor. Bydd yr aelodau canlynol, Ruth Parry, Bethan Jones, Manon Elis, Wena a Llinos Williams, Gaynor Griffiths, Lynne Roberts, Eirian Hughes, Gail Warrington, Esyllt Jones, Sioned Owen, Mandy Williams a Non Llewelyn Jones yn cael eu noddi ar y daith - cysylltwch â unrhyw un ohonynt os teimlwch fel eu cefnogi Mae'r parti hyn yn trefnu Disgo, yn y Neuadd, Nos Wener Mai 15 i'w helpu gyda'r costau i fynd i Ferthyr. Nos Wener Mai 22, trefni'r noson o banded a chrempog yn y Neuadd. Yn ogystal â blasu crempogau cewch gyfle i glywed y Parti Canu dan 15 oed. Y Parti Adrodd d an 18, a Non Llewelyn Jones, cyn iddynt fynd i Ferthyr.

CLWB FFERMWYR IEUANC CAERNARFON: Meinir Williams, Clwb Godre'r Eifl a Chadeirydd y Sir fu'n cadw cwmni i ni Nos Fawrth, Mawrth 31ain. Dangosodd sleidiau i ni ar Rali Ewropeaidd Ffermwyr Ieuanc a gynhaliwyd yn y Ffindir. Nos Fawrth, Ebrill 7ed, cynhaliodd y Clwb noson goffi yn Neuadd Bethel a chafwyd perfformiad o'r sgets a berfformwyd yn Eisteddfod Clybiau Ffermwyr Ieuanc Eryri ym mis Chwefror. Gwnaethpwyd elw o £84.52. Carai'r aelodaiddiolch i bawb am eu cefnogaeth. Enillwyr y raffl oedd: Wyl Pasg - Gethin Jones; Teisen Basg - Llinos Angharad Morris; Planhigyn - Mrs Mair Price; Dwsin o Wyau - Mrs Jones, 13 Bro Rhos. Enillyd yr Helfa Drysor oedd Mrs Jean Jones. Marian Jones o Glwb LLangybi oedd yn ein diddori nos Fawrth, Ebrill 14eg gyda sleidiau o'i hymwelid â Awstralia.

NEUADD GOFFA BETHEL: Enillwyr Clwb Cant Mis Mawrth - 1. Rhif 60 - £20 Mr Idris Morris 2. Rhif 106 - £10 Mrs Eurgain Jones 3. Rhif 109 - £5 - Mrs Joyce Pugh, Rhif 127 - £5 Mrs Knox, Rhif 136 - £5 - Miss Megan Rowlands, Rhif 93 - £5 - Mrs Olwen Jones.

GOFALWR: Yn ystod Mis Ebrill dechreuodd Mrs F. Owen, Fron Helyg ar y gwaith o fod yn ofalwr y Neuadd. Os ydych eisiau llogi y neuadd dylid cysylltu â Mrs Olwen Williams, 8 Stâd Eryri, Bethel, Ff7on: Y Felinheli 671110.

DYMUNO'N DDA: Dymunwn yn dda i Mrs. Fanny Owen, yn ei chartref newydd yng Ngharnarfon. Ddydd Llun y

Pasg symudodd Anti Fanny i fyw i'r dref. Wedi oes o gyfrannu i weithgarwch o bob math ym Methel, dymunir pob hapusrwydd i Anti Fanny yn ei chartref newydd.

LLONGYFARCHIADAU: I Beti a Seiriol Owen, Crud yr Awel ar ddathlu eu priodas arian Mai 12ed.

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, "Glanrafon", (872275).



Dosbarth Hunan Amddiffyn.

Yn ystod y chwe wythnos diwethaf, bu aelodau'r dosbarth yn brysur iawn yn addysgu, o dan arweiniad Mrs Susan Jones a Mr Ian Davies. Bu oddeutu pymtheg o aelodau yn derbyn hyfforddiant cyson, ac ar ddiwedd y cwrs, bu iddynt dderbyn tystysgrif gan Heddweision Dafydd Williams a Rhys Jones. Yn y dosbarth diwethaf yr oedd Mr Oscar Evans yn arddangos ffilm video ar amddiffyn ac yn y blaen. Drwy dalu am eu gwersi, y mae y plant wedi casglu y swm o £14.00 tuag at Gronfa'r Sganiwr.

Clwb Pobol y Cwm; Dydd lau, Mawrth 26, cawsom bleser o wrando ar amrywiaeth o recordiau canu corawl clasurol gan Richard Roberts Bryn Gro. Roedd y rhaglen yn cynnwys datganiad gan gôr plant o Awstralia, gyda nith i Mr Roberts yn aelod ohonno. Diolchwyd iddo gan y Llywydd. Llongyfarchwyd Mr a Mrs Idwal Williams, Elidir View, ar ddathlu eu priodas ruddem. Cydymdeimlwyd â theulu y diweddar Mr Harry Jones o Gaernarfon yn eu profedigaeth annisgwyl. Rhoddwyd y te gan Mr Lloyd Owen, 1 Maes Gerddi a'r raffl gan Mr R. Roberts Bryn Gro. Ein gŵr gwâdd dydd lau, Ebrill 9ed oedd Mr Emrys Hughes, brodor o'r ardal, ac yn fab, i'r diweddar Mr a Mrs John Emrys Hughes, Craigydon gynt. Mae Mr Hughes wedi treulio blynyddoedd yn dysgu ac ar hyn o bryd yn brifathro Ysgol Mathew Arnold, Lerpwl. Diddorol oedd gwrandio arno yn disgrifio ei waith heddiw o'i gymharu â'r dyddiau cynnar a'r pwysau sydd ynghlwm â'r swydd yn enwedig mewn dinas fel Lerpwl. Gresyn meddai yw gweld dirywiad ym mywyd cymdeithasol a'r dylanwadau estronol sydd wedi treiddio i mewn i'n dinasoedd. Nid oedd ei waith meddai, heb ychydig hiwmor a hynny hwyrach yn goresgyn yn aml i broblem oedd yn gofyn am eu datrys. Diolchwyd iddo gan Mr R.H. Parry. Mrs E. Jones, Seion House a Mrs R.

Rowlands, Talafon oedd yn gofalu am y banded, a rhoddq y raffl gan Mrs E. Williams, Pantafon a enillwyd gan Mrs K. Watkins.

UNDEB Y MAMAU: Gweinyddiwyd Cymun y Garawys yn Eglwys Sant Gabriel, Nos lau, Ebrill 2il gan y Parch. Barry Thomas, i aelodau Cwm-y-Glo a Llanrug. Ar ôl y gwasanaeth cyfarfu yr aelodau yn yr Ysgol Gymuned i gael lluniae hysgafn. Y mae trefniant yn cael ei wneud i fynd i Theatr Arcadia, Llandudno, Nos lau, Mai 7ed, i weld perfformiad o 'Ffinian's Rainbow' gan Gwmni Opera Llandudno. Croeso i unrhyw un ddod. Diolchodd Mrs Edwards i aelodau Cwm am ddarparu'r lluniae hysgafn. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Marjorie Roberts, fe'i henillwyd gan Mrs Watkins. Terfynwyd y cyfarfod trwy weddi.

Y CARNIFAL: Cyfarfu Pwyllgor y Carnifal yn ddiweddar, ac oherwydd prinder amser, penderfynwyd dileu adran y Gwisgoedd Ffansi am eleni. Yn hytrach, trefnir Bingo ar Nos Wener, Mehefin 26ain, a chwaraeon p'nawn Sadwrn, y 27ain. Gwahoddir y gwahanol Fudiadau i gynnal Ston-dinau yn ôl eu harfer. Bydd y Pwyllgor nesaf am 7.15 p.m. yn Y Ganolfan, nos Fercher, Ebrill 29ain. Croeso cynnes i bawb. Swyddogion: Cadeirydd - G. Hefin Jones; Ysgrifenyddes - Sue Shaw; Trysoryddes - G. Chick.



CARTREF YR HENOED
CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN
THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS
Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652



Teithiau Dwyfor Cyf.

Llanbedrog, Pwllheli, Gwynedd
Tel. (0758) 740748

HYDREF 17-24 1987

**6 Diwrnod
llawn yn**

PARIS

**GWESTY MOETHUS GWIBDEITHIAU
DYDDIOL (yn y pris) Y CYFAN AM £169**

Plant dan 14 oed £125

Cysylltwch â ni yn awr i sicrhau lle

0758 740748

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

PLAID CYMRU: Cangen Llanrug a'r Cylch. Cafwyd Ffair Wanwyn lwyddiannus yn yr Ysgol Gynradd ar Nos Fercher Ebrill 1af. Dymuna'r swyddogion ddiolch i'r ardalwyr am eu cefnogaeth arferol ac i bawb a gyfrannodd nwyddau a rhoddion. Enillwyr y raffl oedd: Ffrwythau - Mrs Eirwen Rowlands; Cyw Iar - Mrs Anwen Owen; Tegan Meddal - Mrs Anwen Owen.

DIOLCH: Dymuna Iwan Williams, Awelon, ddiolch yn gynnes iawn am y caredigrwydd ddangoswyd tuag ato tra yn yr ysbyty.

Dymua Mrs Eirianwen Thomas, Bron-y-Nant, ddiolch am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty yn diweddar.

HAFAN ELAN: Bydd trip blynyddol gan arigol Hafan Elan yn mynd i Rhyl ar Fehefin 17. Os dymuna rhai o'r ardal fanteisio ar y cyfle o ymuno â'r trip a fyddwchystal â hysbysebu Mrs D. Jones y Warden, Ffôn Caernarfon 5600, Mr Ifor Williams, 25 Hafan Elan neu Mr Emrys Owen 9 Hafan Elan. Ceir mwy o wybodaeth am amser cychwyn ymhellach ymlaen.

GWELLHAD BUAN: Dymunwn wellhad buan i Mrs Megan Williams, Bron Eryri a fu yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn triniaeth ar ei llygad yn ddiweddar. Hefyd, Wendy Jones, Gwydryn, Ffordd yr Orsaf, a fu yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

CROESO ADREF: Croeso adref i Mrs. Ceinlys Roberts, Gwylfa sydd wedi dychwelyd adref o Awstralia.

PRIODAS: Dydd Sadwrn Ebrill 4ydd yng Nghapel Mawr, priodwyd Karen Lewis a Medwyn Jones. Gweinyddwyd gan y Gweinidog y Parch. John Morris, Yr organyddes oedd Mrs Anwen Roberts. Cafwyd y brecwast yn Nhraeth Coch, Ynys Môn.



YN YR YSBYTY: Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Jane Williams, Bryn Eifion a Mrs Ellen F. Williams, 16 Hafan Elan sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.

CROESO ADREF: Mae'n dda gennym glywed fod Mrs Marie Pritchard, Afon Rhos wedi dychwelyd adref o'r ysbyty. Mae Mrs Eirianwen Thomas, Bron y Nant, wedi dychwelyd adref o ysbyty Gwynedd. Dymuniadau gorau am wellhad buan iddynt. Da yw deall fod Gwion Iwan wedi gwella erbyn hyn. Derbyniodd yntau driniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen yn Ffestri Capel Mawr ar Ebrill 14eg. Etholwyd Mrs. Joyce Jones yn Is-drysorydd a Miss Mary Roberts, Mrs. Eryl Roberts a Mrs. Beryl Thomas yn aelodau newydd o'r pwyllgor. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs. Menna Williams a ddaeth yn nain yn ystod y mis diwethaf. Llongyfarchiadau iddi hi a Robin ac Evelyn ar enedigaeth Ceri fach.

Ar nos Wener Mai 1af, bydd rhai o'r aelodau yn camrydd mewn Distawrwydd Noddedig yn Ffestri Salem. Caernarfon, er budd yr Anabl yn Arfon. Gobeithio y bydd pawb yn gallu nodd un o'r merched.

Ar Fai 2il, bydd Mrs. Bethanne Williams a Mrs. Menna Williams yn cynrychioli'r gangen ar y Pwyllgor Cenedlaethol yn Aberystwyth.

Cynhelir yr Wyl Wanwyn ym Mhlas Menai, Y Felinheli ar Sadwrn Mai 9ed. Cewch y manylion gan Mrs. Joan Griffith.

Gwesteion y te oedd Mrs. Roberts a Mary Gwyndy, Mrs. Olwen Llewelyn a Mrs. Eryl Roberts. Diolchwyd iddynt gan Miss Phyllis Ellis.

Gofynnir i'r aelodau ddarllen drwy Rhifau 73, 74 a 75 o gylchgrawn 'Y Wfawr' a dewis eu hoff erthygl. Cofnodwch enw'r erthygl a'r awdur a dowch a'ch atebion i'r cyfarfod nesaf ar Mai 12ed. Edrychwn ymlaen at noson ddifyr yng nghwmni Maureen Rhys a John Ogwen.

Y CHWIORYDD: Cynhaliwyd Cyfarfod y Chwiorydd yn Ffestri Pontrhythallt p'nawn lau Ebrill 16eg. Llywyddwyd gan Ms. J. Williams, Bod Fair, a dechreuwyd y gwasanaeth gan Mrs. A. Smith, Llechwedd. Cafwyd sgwrs gan Mrs. Lloyd Williams yn ymwneud â'r Pasg. Rhoddwyd y te gan Mrs. Griffith, Fron Hyfryd a Mrs. Smith, Llechwedd, a diolchodd Mrs. C. Owen, Hafan Elan. Bydd y cyfarfod nesaf p'nawn lau Mai 21ain, am ddau o'r gloch.

PRIODAS RUDDDEM: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs J.F. Horman, Venice ar ddathlu eu priodas Ruddem yn ddiweddar.



Wael ac Elizabeth Roberts a ddathlodd eu Priodas Arian yn ddiweddar.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD: Cyfarfu Cymdeithas Y Chwiorydd, Capel Mawr yn y Ffestri, nos lau, Ebrill 2il o dan lywyddiaeth Mrs J Davies, Rhyd y Delyn. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan Mrs J. Parry, Moranedd. Rhoddwyd y te gan Mrs M Parry, Bryn Heli a Mrs E Jones, Bryn Heli. Dymunwyd gwellhad llwyr a buan i'r chwiorydd a oedd yn absennol oherwydd gwaeledd.

CLWB BLODAU'R GRUG: Cynhaliwyd cyfarfod o Gwb Blo dau'r Grug yn y sefydliad coffa brynhawn lau, Ebrill 12ed, o dan lywyddiaeth Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol. Y gŵr gwadd oedd Mr Huw R. Jones, Llanberis. Treuliwyd prynhawn difyr yn ei gwmni yn trafod Barddoniaeth a'u hawduron. Rhoddwyd y te gan Mrs Myfanwy Jones, Bro Rhyddallt, Mrs J. Roberts, Elidir View, Enillwyd y raffl gan Mr Cledwyn Williams. Cynigiwyd y diolchiadau gan Mr Ifor Williams, Hafan Elan.

LLONGYFARCHIADAU i Ffôn Orwig Thomas, Buarthau, Llanrug ar lwyddo yn yr arholiad piano Gradd 5 gydag Anrhydedd.

DIOLCH: Mae Mrs. Nesta W. Jones, 1 Bro Rhyddallt yn dymuno diolch yn fawr i berthnasau, ffrindiau a chymdogion, am yr holl gardiau, blodau a'r galwadau f7on a dderbyniwyd tra'r oedd yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd diolch i'r meddygon a'r staff yn Ward Conwy, meddygon teulu a staff Llanberis, a'r Gangen Feddygfa.

RHODD DI-ENW: £2.0

DIOLCH: Dymuna Mr R. L. Thomas, Alwyn, Llanrug a theulu'r diweddar GwawrThomas ddiolch o galon i'w perthnasau, ffrindiau a'u cymdogion am y llythyrau, cardiau a phob mynegiant o gydymdeimlad o golli priod a mam annwyl. Diolch hefyd i feddygon Waunfawr, Y Parch. John Morris a'r Parch. W.O. Roberts.

PRIODAS ARIAN: Dymuniadau Gorau i Wavell ac Elizabeth Roberts, London House ar ddathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar. Hefyd i Selwyn ac Anwen Morris, Gwenmon ar ddathlu eu priodas arian hwythau.

CROESO ADREF: i Mrs Lewis, Madryn. Bu Mrs Lewis yn Awstralia yn ymweld â pherthnasau.

Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru
Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990

9fed Mai, 1987 am 7.30 o'r gloch

Sioe Ffasiynau
yng
NGWERSYLL 'BUTLINS'

MYNEDIAD £3.50

Adloniant a Lluniaeth Ysgafn

**AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .**



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**

Ffôn: Caernarfon 5175

**SELWYN
MORRIS**

**Adeiladwr a Threfnydd
Angladdau**

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2841

MR BASTOW

Fel y crybwyllwyd, clerigwr yn Eglwys Lloegr oedd Mr. Bastow cyn ymddeol, a pharhaodd yn eglwyswr cadarn ac ymroddedig hyd y diwedd. Gwelais ef lawer gwaith yn cychwyn yn fuan iawn ar ôl wyth o'r gloch ar fore Sul trwy bob tywydd, haf a gaeaf, i addoli yn Eglwys Crist, Caernarfon, - er mwyn cael gwasanaeth Saesneg. Ond ni fyddai'r drol fach byth yn cael dod allan ar y Sul, - byddai wedi ei pharcio yng nghanol y chwyn a'r 'nialwch yn yr ardd ffrynt. Ni chredaf iddo ddysgu gair o Gymraeg erioed, er iddo dreulio ugain mlynedd ymysg Cymry glân y Betws a'r Waun. Serch ei gysylltiad â'r eglwys Saesneg yng Nghaernarfon, aelod o Eglwys Sant Ioan, y Waun Fawr oedd o, ac yma eto roedd ganddo ei ffordd od ei hun o wneud popeth. Pan ddoi'r plât casglu o amgylch byddai'n tynnu hen gwrth lledr o'i boced ac yn gosod symiau bychain o arian o'r neilltu ar y sêd wrth ei ochr - hyn-a-hyn am fara, hyn-a-hyn am fenyn, te a siwgrwr, ac yna'n gwagio faint bynnag a fyddai'n weddill ar y plât, a'r casglwr yn gorfod sefyll uwch ei ben i wyllo'r seremoni, ac felly bob tro.

Deuddeg o dai sydd yn Rhesdai Gwyrfaei, felly roedd Rhif 5, tŷ Mr. Bastow, rywle tua'r canol. Fel ei denant, roedd y tŷ hefyd yn tynnu sylw rhywun diarth ar unwaith. Yn un peth roedd rhes o duniau o wahanol fwydydd wedi'u gosod yn y ffenest, a rhagor o duniau wedyn ar y grisiau - pob gris o'r gwaelod i fyny i'r top.

Byddai croeso i bawb i ddod i weld ei lyfrgell; yn wir, llyfrgell oedd y tŷ i gyd gan nad oedd lecyn gwag i'w weld yn unman. Cymhellai pawb i ddarllen, a rhoddodd lawer iawn o lyfrau allan ar fenthyg, a nifer golew ohonynt, mi wn, yn llyfrau na ddaethant byth yn ôl. Llyfrau Saesneg, wrth gws, - a ieithoedd eraill hefyd - cyfrolau trymion ac ysgolheigaidd a oedd ymhell y tu hwnt i ddeall y plwyfolion a'u plant. Cofiaf ef yn fy ngwahodd i'r tŷ ryw ddiwrnod. 'Come here little boy', medda fo, 'I have just the book for you - you'll enjoy this', ac estynnodd lyfr bychan cäs gwyrdd i mi, ac rydw i'n cofio ei deitl o hyd heddiw - 'The Cat and the Canary'.

Roedd 'na beth arall hefyd yn peri bod 'lyfra Basto' yn wahanol i lyfra' eraill, - eu harogl. Nid ogla' llwch a mwg yn gymaint, ond rhyw ogla' diarth, cryf. 'Fydda' Mr. Bastow byth yn smocio pan allan ar y ffordd, ond yn y tŷ hefo'i lyfau byddai'n smocio pibell hir, un felen a thro yn ei choes nes bod ei phen yn gorffwys yn daclus ar ei farf tra byddai'n darllen. Dywedid y byddai hefyd yn llosgi rhyw fath o aroglarth - 'incense' yn y tŷ. Hwyrach mai hwnnw oedd yn gyfrifol am yr ogla' - dwn i ddim, ond mae o yn fy ffroenau y funud 'ma - 'ogla Basto', dyna'r unig ffordd y medra'i ddisgrifio fo. Mi fydda' mam yn gwybod yn iawn os bydda' gin i 'lyfr Basto' yn y tŷ.

Roedd golwg anniben iawn ar y gegin. Hen stôf haearn fawr, wedi cochi gan wres, ar ganol y llawr, a chawl o ryw fath, neu uwd yn ffrwtian berwi'n araf mewn sosban ar 'i phen hi. Y lludw'n eich cyfarfod yn y drws bron. Mae'n wyrth nad aeth y lle j dân efo'r holl lyfrau a chylchgronnau wedi'u pentyrru ar ei gilydd ym mhobman. Ond mi fuo bron iawn i hynny ddigwydd unwaith. - 'Rhen Bastow'n rhuthro allan o'r tŷ ryw b'nawn a chymylau o fwg du'n ei ddilyn, a phlant y stryd yn gweiddi ar ucha'u lleisiau, 'Tŷ Basto ardân!'.....'Tŷ Basto ar dân!' Wrth lwc mi lwyddodd y cymdogion i ddiffodd y tân cyn iddo gael gafael iawn.

Roedd y 'Teras', fel y gelwid y tai, yn lle drwg iawn am lifogydd pan fyddai afon Gwyrfaei yn torri dros ei glannau. Byddai'r tai a'r gerddi dan droedfedd o ddŵr. Mae gen i go' byw iawn am un o'r llyfogydd hynny - 'lli Awst' mae'n debyg, a phawb yn trio hel 'u petha at 'i gilydd a'u cario i fyny'r grisai' o gyrraedd y dŵr. Rhen Bastow, at ei benglinia' yn sefyll mewn anobaith trist ac yn snwffian crio wrth wyllo'i lyfrau gwerthfawr yn nofio ar wyneb y dŵr. Dyna'r tro cynta, am wn i, i mi weld dyn yn crio. Bron na faswn i'n medru crio hefo fo.

Ar draws y ffordd, yn union gyferbyn â'i dŷ, roedd tap dŵr - 'Y Feis' oedd ein henw ni arno, ac yno y byddai pawb yn cael eu cyflenwad dŵr. Platfform bychan o lechen las i ddal y piser yn wastad, a chwter guli gario'r dŵr wâst i ffwrdd. Lle iawn i chwarae a chadw reiat. Roedd 'rhen Bastow wedi cymryd arno'i hun y swydd gyfrifol o 'Geidwad y Feis'. Cadwai lygad barcud arni a cheisiai'n perswadio ninnau'n garedig i fynd i rywle arall i chwarae. Ond un diwrnod fe'i cynhyrfwyd yntau'n o arw.

Roeddni ni wedi bod wrthi ers meitin yn taflu dŵr ar benna'n gilydd ac yn poetsio fel chwiaid o gwmpas y 'Feis'. Yn sydyn dyma'r hen Bastow allan o'r tŷ ac yn nelu'n syth amdanom ni, a'r gaib ddringo'n chwifio'n fygythiol uwch ei ben. Roeddni ni wedi clywed digon fod pobl fel yna, pan wedi gwylltio, yn beryclach o lawer na phobol er'ill. Cyn pen chwinciad roeddni ni wedi chwalu i bob cyfeiriad ac yn 'i heglu hi am adre. Ond nid dyna ddiwedd y stori. Ryw hanner awr yn ddiweddarach, a minnau'n dal i swatio'n y tŷ led cae i ffwrdd, mi ddigwyddodd mam edrach drwy ffenast y gegin fach i gyfeiriad y 'Teras'. 'Duwch annw'l', medda hi, 'mae Mr. Bastow'n dŵad i fyny'r lwybr at y tŷ 'ma - 'sgwn i be ma' fo isho?'. Roedd gin i syniad golew be

oedd gynno fo isho, ac mi gleui'i is i hi drwy'r drws cefn ac i ganol brwyn y Weirglodd Fach i 'mguddio. Ddois i ddim yn ôl i'r tŷ am hydoedd, ond pan ddois i o'r diwedd, ânglynffon yn fy ngaf, ddeudodd mam yr un gair o'i phen - mi fuo'n rhaid i mi ofyn - 'Be o'dd Mr. Bastow isho mam?'

'Paid â chymryd arnat na wyddost ti ddim, y trychfil bach!'

'Ydi o am gweir i mi?'

'Bobol annw'l, fasa Mr. Bastow byth yn meddwl am roi cweir i neb!'

'Be ddeudodd o 'ta?'

'Ofn 'i fod o wedi dy ddychryn di ro'dd o - biti na fasa fo! - I was afraid I had frightened the dear little boy'..... 'Dear little boy, wir! - Dos di'n agos i'r feis 'na i chwara eto, ac mi gei'r chwp din ora ges di rioed!'.
Emyr Jones, Caernarfon



Mae Gŵyl Hen Galan Mai yn Amgueddfa Werin Cymru eleni sy'n ymestyn dros bedwar diwrnod gan gynnwys Gŵyl Fai, yn argeoli at fod yn ddigwyddiad cyffrous yn dilyn llwyddiant yr Ŵyl y llynedd.

Eleni, bydd mwy na chant o weithgareddau amrywiol yn digwydd gyda chreffftwyr o bob cwr o Gymru yn arddangos eu crefft ac arddangosiadau

fydd yn rhoi cyfle i ymwelwyr dreio'i llaw gyda hen chwaraeon a medrau traddodiadol.

Ymhlith llawer o weithgareddau newydd, bydd nifer yn ymwneud â'r amgylchedd fel rhan o ddatliadau Blwyddyn Ewropeaidd yr Amgylchedd. Mewn pabell fawr ar y Maes, trefnwyr rhaglen o adloniant gan gynnwys Sioe FFasiwn y Wisg Gymreig. Yn y babbell hon ar brynawn Sadwrn Mai 2, cynhelir Cystadleuaeth Bandiau Pres gyda deg o fandiau yn ymgeisio am y gwobrau hael a ganygir.

Bydd yr Ŵyl yn parhau gyda'r nos hefyd ar Nos Sadwrn a Nos Sul. Nos Sadwrn Mai 2, cynhelir noson Werin a drefnir gan gwmni Sain gyda Dafydd Iwan, Plethyn, Mabsant, Pedwar yn y Bar, Bridgette a Jonathan, a Chôr Godre'r Garth, ac ar y Nos Sul bydd Cymanfa Ganu draddodiadol. Eisoes, y mae'r diddordeb yn yr Ŵyl eleni yn cynyddu bob dydd wrth i drefnwyr a chwmnïau teithio o bob man fynegi eu hawydd i fod yn Sain FFagan i fwynhau'r Ŵyl Hen Galan Mai eleni.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys.

YMDDEOLIAD: Yn ystod y mis aeth heibio, ymddeolodd dau ŵr o'r ardal - Mr Harry Jeffrey Roberts, Tainewyddion, a Mr Alwyn Jones, 3 Tai Tan-y Coed. Dymunwn yn dda i'r ddau. Pob bendith i'r dyfodol ac iechyd a hoes i fwynhau eu horiau hamdden.

LLONGYFARCHIADAU: I Manon Llwyd Evans, Carwyn ar ennill y wobr gyntaf ar unawd piano o dan 19 oed, ac ar y ddeuawd piano dan 19eg, gydag Alisa Edwards, yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Bydd Manon ac Alisa yn mynd ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Merthyr Tydfil. Llongyfarchiadau hefyd i Beverley Ann Roberts, Awelfryn, hithau yn mynd ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd ym Merthyr - cystadlu fel un oedd yn y Ddawns Werin dan 9 oed. Pob lwyddiant i Manon, Alisa a Beverley ym Merthyr. Yn ychwanegol, bu Beverley yn llwyddiannus yn Arholiad Yr Ysgol Frenhinol Gerddorol (Royal School of Music). Cyrhaeddodd Beverley y Radd Flaenaf (grade 1) gydag anrhydedd am chwarae'r piano. Llongyfarchiadau ychwanegol hefyd i Manon ar dderbyn ysgoloriaeth gan y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol, i fynychu eu Cynhadledd dros benwythnos Ebrill 10-12, 1987 yn Aberystwyth. Erbyn hyn mae Manon wedi bod yn y Gynhadledd ac wedi mwynhau y gynhadledd a'r gwmniaeth yn fawr.

HELO BOBOL: Bore Mawrth Ebrill 21ain, clywyd lleisiau Wyn Parry ac Aled Parry, Ael y Bryn ar 'Helo Bobol'

- cael eu holi yr oeddynt gan Hywel Gwynfryn am ddrama 'Twill o Le' a berfformwyd ar S4C yr un noson. Wyn ac Aled yn cymryd rhan ynddi, Wyn yn hogyn papur newydd ac Aled yn hogyn tynnu stumiau. Merched o'r ardal hon oedd yn actio yn y ddrama oedd Gwenan Mair a Siwan Eurgain, Pant Bryn Gwyn. Cynhyrchydd a Chyfarwyddwr y ddrama oedd Sion Humphreys, Pant Bryn Gwyn.

BEDYDD: P'nawn Sul, Ebrill 19, yng Nghapel Tan-y-Coed, gyda'r Parch. John Morris yn gweinyddu, bedyddiwyd geneth fach Mr a Mrs Michael Blanchard, Dolwen, Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Natalie Elisha Blanchard. Y mae Natalie yn wyres i Mr a Mrs B. Blanchard, Y Llythyr, a Mr a Mrs Irfon Ellis, Llanberis. Gyda'r teulu yn y Gwasanaeth yr oedd hen nain Natalie, Mrs Williams, Rhosbodrual, Caernarfon.

DIOLCH: Dymuna pensiynwyr ardal Tan-y-Coed ddatgan eu diolch i Mrs Dilys Jones, Hafan Elan, a Mrs Eurwen Williams, 1 Bro Gro am eu caredigrwydd yn rhannu'r ymenyn a'r caws iddynt. Diolch yn fawr.

ANRHEG: Mawrth 18ed, anrhegwyd Mr Owen Edwin Wynne, Llety Llwyd, Tan-y-Coed, yn Ffatri Fferodo, fel gwerthfawrogiad o bum mlynedd ar hugain o wasanaeth i'r cwmni. Llongyfarchiadau iddo a phob bendith i'r dyfodol.

CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr)

YR URDD: Ar Ebrill 8, cafwyd noson lwyddiannus yng nghwmni plant yr Urdd a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir. Diolch i bawb a gyfrannodd mor hael tuag at eu costau teithio i'r Eisteddfod Genedlaethol ym Merthyr Tydfil. Bydd aelodau'r Gân Actol yn mynd ar daith gerdded nodedig ar Fai 8, o'r Waunfawr i Lanberis. Pob lwc i'r Gân Actol ym Merthyr Tydfil ac hefyd i Joanna Marston a fu'n cystadlu ar yr Unawd Chwythbrennau dan 19 oed. Bydd bws yn gadael Waunfawr bore Mercher Mai 27ain am Ferthyr Tydfil ac yn dychwelyd nos lau. Os oes rhywun eisiau dod gyda ni i gefnogi'r plant, cysylltwch â Beryl Jones, Dôl y Coed am ragor o fanylion. Bydd cyfle i chwi weld y Gân Actol a chlywed Joanna yn canu'r Oboe ar Nos Wener Mai 22ain, yn y Ganolfan am 7.00 o'r gloch. Bydd rhai aelodau Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990 yn dod i'r cyfarfod yma i drafod a sefydlu Pwyllgor i godi arian tuag at yr Eisteddfod yma. Mae targed o £2,250 wedi cael ei nodi ar gyfer Waunfawr. Felly dowch yn llw i'r cyfarfod yma - mae tair blynedd o'n blaen i gyrraedd y nôd a dyma gyfle i gael talu'n ôl am y croeso maent hwy wedi gael wrth gystadlu yn yr Eisteddfodau Cenedlaethol yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Pob hwyl i'r ugain o blant sydd yn mynd yng nghwmni Yncl Gareth am benwythnos i Glanllyn ar Fai 15ed ac hefyd i'r plant sydd yn mynd i Wersyll yr Urdd Llangrannog yn yr haf.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r sefydliad yn Festri Croesywaun, Nos lau Ebrill 2, gyda Mrs Par Parry yn llywyddu. Croesawyd Mrs Buddug Rowlands yn ôl i'r sefydliad ar ôl ei salwch yn ddiweddar. Diolchodd y llywydd yr aelodau am helpu yn y Ganolfan gyda'r cyfarfod 'Gofal Cymuned'. Darllenwyd a thrafodwyd y llythyr misol a chofnodion y Cyfarfod diwethaf. Cafwys sgwrs ddiddorol gydag arddangosfa o rai o luniau wedi eu peintio gan Mrs Duncan, un o aelodau'r sefydliad. Diolchwyd iddi gan Mrs Meira Ham. Enillodd Mrs Morfa Evans y raffl a roddwyd gan Mrs Pat Parry. Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos lau, Mai 7ed, pan fydd Mrs Maud Williams, Trefnydd gwirfoddol y Sir, yn trafod y penderfyniadau at y Cyfarfod Blyneddol a gynhelir yn Llundain ym Mis Mehefin.

W.E.A.: Cawsom gyfres o ddarlithiau diddorol iawn dan nawdd y W.E.A., Gyda Mr Duncan Brown yn areithio. Traddodwyd hanes dyn a'i gynefin, bywyd o'r môr i'r mynydd ac olrhain

datblygiad bywyd o'r cyntefig hyd at y presennol. Edrychwn ymmlaen at y tymor nesaf a chael rhagor o wybodaeth am ein datblygiad.

CLWB GWYRFAL: Ar brynhawn lau, Mawrth 19eg, traddodwyd rhaglen amrywiol a diddorol. Mrs Miles oedd y llywydd a Mrs Morgan Jones oedd yn gofalu am y rhaglen. Cawsom hanesion am brofiadau amryw o'r aelodau - wedi byw yn America, Awstralia a rhai yn y Waun. Daeth rhai â phethau o'r America ac Awstralia. A chawsom fwynhad o weld gwaith llaw rhai o'r dynion, ac hefyd hanes rhai o feddygon yr ardal, a chipolwg ar fywyd y chwarel a'r fferm. Bydd y cyfarfod nesaf ar yr ail o Ebrill gyda Mr D. Meirion Hughes, Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn rhoi annerchiad.

MERCHED Y WAWR: Er gwaethaf y tywydd garw daeth nifer dda o aelodau ynghyd i gyfarfod Mis Mawrth. Llongyfarchodd y llywydd y Gangen am ddod yn gyntaf am chwibanu a Margaret Owen yn ail am sgwennu llythyr caru yn Ffug Eisteddfod Merched y Wawr Llanrug yn ddiweddar. Bu pawb oedd yn bresennol yn brysus yn llenwi holiadur Merched y Wawr. Cytunodd Mrs Gweneirys Jones, Mrs Margaret Owen a Mrs Hughes, Llys Meredydd, gynrychioli y gangen yn yr Ysgol un dydd yn y Ganolfan ar Ebrill 11eg. Hefyd mae Mrs Mary Vaughan Jones am fynd i'r Wyl Wanwyn ym Mhlas Menai. Sgwrs a sleidiau gan Mrs Mary Vaughan Jones oedd yn ein diddanu y mis hwn a chafwyd noson yng nghanol haul a thywydd braf patagonia. Diolchwyd i Mrs Jones gan Mrs Margaret Owen. Rhodwyd y raffl gan Mrs Gill Brown ac fe'i enillwyd gan Mrs Mair Williams. Anfonwyd cofion y gangen at Mrs Katie Wyn Jones a oedd yn yr ysbyty yn Lerpwl. Bydd y cyfarfod nesaf Ebrill y 23ain pan ddisgwylir Karen Thomas o Body Talk.

DIOLCHIAU: Dymuna teulu y diweddar Mrs Cassie Ann Pritchard, 6 Tref Eilian, Waunfawr ddiolch yn garedig i'r perthnasau, ffrindiau a chymdogion am y llythrau, cardiau a phob mynegiad o gydymdeimlad a dderbyniwyd yr eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl. Diolch i Feddygon a Staff Surgery Waunfawr, Ysbyty Gwynedd, Dwyfnfa Nursing Home, Bontnewydd a Morriston Hospital, Abertawe am eu gofal caredig, ac am yr holl roddiaon hael tuag at Apêl y Sganiwr Ysbyty Gwynedd. I Selwyn Morris, Llanrug hefyd am y trefniadau parchusa'r caredigrwydd a dderbyniwyd ganddo).

ER COF: Ar Fawrth 24ain, bu farw

BORE YN BELLFIELD ETO



Am yr ail dro yn olynol mewn mis, roedd Nia Llwyd o'r Waunfawr ar ei ffordd i Bellfield, cae ymarfer Tim Peldroed Everton. Y tro yma hefyd roedd Karen Roberts o'r Waunfawr am fynd, ac roedd y ddwy yn edrych ymlaen yn fawr i'r diwrnod yma ar ôl siomedigaeth Nia y tro diwethaf ar ôl mynd yno a gweld fod y tîm yn Ffrainc. Ar ôl cyrraedd Lerpwl aethant ar goll ar ôl dilyn cyfarwyddiadau y 'navigator' (Nia). Ond yn y diwedd cawsant hyd i'r lle ar ôl iddynt ddreifio i fewn i iard rhyw ysgol. Roedd Karen a Nia wrth eu bodd pan welsant Gary Stevens yn mynd heibio. Wedyn cyrraeddodd lan Snodin yn ei 'XR3i' Cabrolet gwyn. Caswant fraw arall o weld Trevor Steven o bawb yn parcio ei gar wrth ymyl eu car hwy. Roedd yna nifer fawr o blant yno yn disgwyl yn amyneddgar ar y cae am y chwaraewyr gorau ym myd peldroed! Bu'r tîm ar y cae yn ymarfer gyda Howard Kendall (yn ei siorts) am gryn amser. Ar ôl ymarfer cawsant lofnodion y rhan fwyaf ohonynt ac ambell i lun hefyd. Roedd y cyfan yn anghredadwy, roedd y chwaraewyr i gyd yn edrych mor ardderchog yn eu siorts. Cawsant gyfarfod y rhan fwyaf o'r chwaraewyr, yn eu mysg roedd Pat Van Den Houwe, Gary Stevens, Trevor Steven, Neville Southall, Adrian Heath, Ian Snodin, Derek Mountfield, Paul Power, Kevin Langley, Peter Reid, Dave Watson, Paul Wilkinson a'r annwyl Howard Kendall. Roeddant yn siomedig iawn (Karen yn arbennig) na cawsant gyfle i gyfarfod â Kevin Ratcliffe, cawsant ei weld trwy'r ffenestr, ond ni cawsant ei gyfarfod am ei fod yn derbyn triniaeth feddygol. Nid oedd Graeme Sharp, Kevin Sheedy na Paul Bracwell yn bresennol ychwaith. Er gwaethaf hyn, cyrraeddasant adref yn flinedig iawn ar ôl diwrnod bythgofiadwy.

Miss Mary Ellen (Mem) Williams, Weirglodd Goch, Waunfawr. Roedd Mem yn enedigol o'r Waun ac yn un o'r trigolion hynaf. Fel merch ifanc

pedair ar ddeg oed fe aeth i Lundain lle y treuliodd ddwy flynedd ar hugain yn gweini gyda Dr. a Mrs Lloyd Williams, Bryn Meredydd. Ar ymddeoliad Dr. Lloyd Williams dychwelodd y teulu i'r Waunfawr a daeth Mem gyda hwy a threuliodd ddwy flynedd ar hugain pellach yn eu gwasanaeth. Wedi marwolaeth Mrs Lloyd Williams aeth Mem yn ôl i'w chartref i edrych ar ôl ei mam ac wedi hynny ei chwaer Jennie. Pan fu farw jennie yn 1979, roedd Mem eisoes yn 83 mlwydd oed, ond serch hynny daliodd i fyw ar ei phen ei hun gyda chymorth gan gymdogion a ffrindiau. Yn fuan ar ôl ei phen blwydd yn ddeg a phedwar ugain gorfu iddi dreulio sbel yn yr ysbyty ac yn dilyn hyn fe aeth i fyw i Dwyfnfa, Cartref i'r Henoed ym Montnewydd. Yno fe dreuliodd ei misoedd olaf yn hapus iawn mewn amgylchfyd gofalus.

Yn ystod ei thymor yn Llundain mawr oedd ei chariad tuag at gapel 'Charing Cross'. Roedd ei hatgofion am weithgareddau'r capel hwn yn fyw iawn yn ei chof hyd y diwedd. Wedi dychwelyd i'r Waun bu'n aelod ffyddlon yng Nghapel Bethel M.C. tra y gallodd, ac er nad oedd yn medru mynychu'r moddion yn ddiweddar ni phallodd ei diddordeb yn yr achos. Person dymunol a charedig oedd Mem, a phoblogaidd ymysg ei theulu a'i ffrindiau. Gellir dweud iddi wneud ei gorau i bawb ar hyd ei hoed ac fe welir colled mawr ar ei hôl.

ARHOLIADAU CERDDOROL: Llongyfachiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant.

Theori Gradd 2; Ella Wyn Jones, Graianfryn; Dylan Jones, Rhandir Mwyn, Elin Gwilym, Llidiart Wen; Bethan Wyn, Y Frenni.

Gradd 3: Rhys Sion, Pant Teg; Osian Gwynedd, Nant

Gradd 5: Euros Wyn, Y Frenni; Karen Roberts, Swyn y Gwynt;

Piano - Gradd 1: Zoe Gordon, Garededd Wen (Anrhydedd); Elain Medi, Lloches; Heddus Gwynedd, Nant (Teilyngdod); Huw Gwilym, Llidiart Wen.

Gradd 3: Alaw Meleri Jones, Rhandir Mwyn; Ella Wyn Jones, Graianfryn;

Gradd 5: Sian Llwyd, Dol y Coed. Ffliwt - Gradd 8: Iwan Ellis, Glyn Awel.

DIOLCH: Dymuna Rhian Ellis, Glyn Awel, ddiolch o galon i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati yn dilyn ei thriniaeth yn yr ysbyty ac ar ôl iddi ddychwelyd gartref.

Y GANOLFAN: Dyma fuddugwyr Raffl y "Grand National".

1. Barry Walker, Snowdonia Park Hotel £20

2. G.A. Hanks, 13 Tref Eilian £10

3. Fiona Johnstone, Tŷ Gwyn £5.

Yr wyf yn teimlo y dyliwn fel un o bensiynwyr a ffrind Mrs C.A. Pritchard, Stad Tref Eilian, ddatgan fy nghydymdeimlad llwyraf â'r teulu oll o



**Caernarfon
Industrial
Supplies**

BRYNAFON, LLANRUG, Ffôn: Caernarfon 4448

Hoelion, Sgriws, Bolttiau, "Fasteners",
Sgidiau, Wellingtons, Cotiau gwarchod a
hamdden, oll am Brisiau gyda'r rhataf yn
y fro.

Tŵls C.K. am brisiau cystadleuol

Bistro

Glandŵr

43-45 Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871278

(Danny a Nerys Roberts)



golli mam a nain dda iawn. Bu drws Mrs Pritchard yn agored bob dydd, ni fyddai byth yn ei gloi tan tua deg o'r gloch bob nos, a byddai ei chroeso i bawb bob amser yr un fath. Chwith mawr inni ei cholli. Byddwn yn dweud wrthi yn aml y dylai roi enw ar ei thŷ, sef "Aelwyd y Gesail". Gwyddoch am yr adroddiad: "Caf droi pryd y mynwyf i aelwyd y Gesail".

Os oes yno glicied, nid oes yno glo. A mwyned fy nghroeso nes pery im feddwl. Mai haelaf y galon, po lymed y fro." Dyna sut y gallaf ddweud am y wraig annwyl hon. K.R.

CROESO: Croeso cynnes iawn i Marian Williams (Llythyrdy Betws Garmon gynt) i'w chartref newydd ar Stad Tŷ Hen. Gobeithiwn y bydd yn hapus iawn yn ein plith.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlwn yn fawr iawn â Mrs Mair Williams a'r teulu, Fferm Boddyfyrd yn eu profediageth o golli mam a nain, sef Mrs C.A. Pritchard, Tref Eilian. Cydymdeimlwn hefyd a theulu y diweddar Miss Mem Williams, Weirglodd Goch, a fu farw yn 90 oed. Trist yw cofnodi marwolaeth sydyn iawn Mr Eurfyl Owen, Dolwyn, a chydymdeimlwn a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU: I Alun Williams, Bro Waun, ar ennill y wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth Cŵn Werin ac ar y ddeuawd hefo Wmffra yn Eisteddfod Llanllyfni, daeth hefyd yn ail ar y Brif Unawd ac yn 3ydd ar yr Emyrn. Llongyfarchion hefyd i Wmffra am ddod yn ail yn y gystadleuaeth Unawd Gymraeg a'r Emyrn.

Yn Eisteddfod y Groeslon, daeth Alun yn ail ar y Brif Unawd a'r Unawd Gymraeg ac yn 3ydd ar y Gŵn Werin. Enillodd Meira Turner, Colfryn, yr ail

wobr ar y Brif Adroddiad.

Yn Eisteddfod Mynytho daeth Alun yn gydradd ail yn y gystadleuaeth Unawd Gymraeg ac yn 3ydd ar yr Emyrn. Llongyfarchiadau i Meira ar ennill y wobwr gyntaf ar y Brif Adroddiad.

YSBYTY: Bu amryw o drigolion y pentref yn yr ysbtyty yn ddiweddar, a derbyniodd rhai ohonynt driniaeth law fedddygol. Da yw deall eu bod yn gwella, sef Mr Gwilym Madog Jones, Bro Waun, Mrs Roberts, Elwy House, Mrs Mary Lloyd Jones, Bryn Tawel, Mr R.O. Jones, Tan y Waun, Mr John G. Jones, Hafod y Rhug, Mr John Dawson, Bro Waun, Miss Glenys Thomas, Gilfach, Mrs Annie Bennet, Llechwedd a Mrs Dilys Williams, Llys Seibiant.

Yn parhau yn yr ysbtyty mae Mrs K.W. Jones, Bron Eifion, ond yn Ysbyty Gwynedd erbyn hyn. Da yw cael dweud ei bod yn gwella yn araf. Anfonwn ein cofion ati ac at Capt. Jackson, Trigfa, sydd hefyd yn yr Ysbyty.

CLWB CANT - PLAID CYMRU: Dyma restr enillwyr y Clwb 100 am fis Mawrth.

1. Norman Williams, Lliadiart Wen
2. Duncan Brown, Gwelfor
3. Marian Iwan, Pen y Berth

CYMANFA GANU: Cynhelir Cymanfa Ganu Ysgolion Sul y Methodistiaid yng Nghapel Croes-y-Waun, am 1.30 a 5.30 o'r gloch, dydd Sul, Mai 3ydd.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Mawrth:

1. £40 Cenin Griffith, 4 Foel Eilio, Glan Conwy
2. £25 E.W. Roberts, 10 Ael y Bryn
3. £10 P.E. Marston, Blaen y Nant

DIOLCH: Dymuna Glenys Thomas, Gilfach, ddiolch o galon i bawb am y llw caridau a'r rhoddion a dderbyniodd yn dilyn triniaeth yn yr ysbtyty yn ddiweddar.

W.H. JONES

TRYDANWR

**Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS**

FFÔN:

LLANBERIS 871470

**Contractau
Weirio Tai**

**Cawodydd Trydan
ac ati**

**Mae mwy o ddewis
nag erioed gan
JOHN A ROBERTA
GRIFFITH**

**Y STORFA
SGWÂR LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 2790**

**Bwydydd, Llysiau,
Dioddydd, Gwlân Sirdar,
Patrymau, Gweill Aero
Agored 7.30 a.m. - 6.30 p.m.
Agored tan 8.00 p.m. nos
Wener a**

**9.30 - 12.30 fore Sul
Archebwch dros y ffôn - fe'i
danfonwn at eich drws**

TAC SIS

AMBERLINE

BETHEL

UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

AR WERTH CEFN GWLAD CYMRU

Y bygythiad mwyaf difrifol i gefn gwlad Cymru ers yr ail Ryfel Byd! Dim llai na hynny. Yn sgil hynny mae dyfodol y cymunedau Cymreig yn yr ardaloedd gwledig yn edrych yn dduach nag erioed o'r blaen. Nid siarad gwag yw hyn.

Yng nghyfarfod cyntaf y Cabinet yn 1987 trafodwyd polisi newydd ar gyfer yr ardaloedd gwledig sydd ag oblygiadau difrifol iawn i Gymru. Nid peth newydd yw'r mewnlifiad, ac ers dros ddegawd bu'r Gymdeithas yn ymgyrchu yn erbyn datblygiadau hapfasnachol yng Nghymru ac yn benodol yn erbyn adeiladu tai di-angen yn yr ardaloedd gwledig.

O ganlyniad i'r trafodaethau ar ddechrau mis Ionawr mae yna berygl y bydd hapfasnachwyr yn cael eu hannog i ddatblygu cefn-gwlad - a hyn ar draul amaethyddiaeth ac heb roi unrhyw ystyriaeth i anghenion y gymuned. Y cam cyntaf i'r cyfeiriad yma yw'r "dad-regwleiddio", sef llacio rheolau cynllunio gan gychwyn gyda'r awgrym i ddileu Cynlluniau Fframwaith sydd ar hyn o bryd o dan ofal y Cyngor Sir. Bydd hyn yn cael gwared ag un haen o gynllunio ac yn ei gwneud yn haws i ddatblygwyr gael cynlluniau trwy'r Cyngor Dosbarth. Ers tro bu'r Gymdeithas yn galw am statws cynllunio i'r Iaith Gymraeg a chafwyd symudiadau calonogol i'r cyfeiriad yma gan rai awdurdodau a hyd yn oed rhywfaint o gydymdeimlad o'r Swyddfa Gymreig. Buasai gwahanu grym awdurdodau cynllunio yn gam enfawr yn ôl.

Llawn mor bell gyrhaeddol yw rhai o'r awgrymiadau a ddaeth o weithgor rhyngadrannol a sefydlwyd gan y llywodraeth i ddatblygu polisiau ar gyfer cefn gwlad ac yn dwyn y teitl ALURE (Alternative Land Use and the Rural Economy). Y bwriad fydd i gyflwyno syniadau'r gweithgor mewn ffurf Papur Gwyn i'r Senedd cyn yr etholiad. Nid yw'r argymhellion yn ddrwg i gyd, ond yn wyneb dad-regwleiddio maent yn hynod o beryglus. Gellid crynhoi'r awgrymiadau fel a ganlyn.

(i) Coedwigaeth - argymell coedwigo tir uchel ar raddfa eang iawn ac hefyd tir is.

(ii) Hamddena - rhyddhau tir amaethyddol ar gyfer cynlluniau hamddena megis cyrsiau golff. Ym maes twristiaeth gwelwyd Bwrdd Croeso Cymru yn galw am lai o reolaeth dros ddatblygiad meysydd carafannau yng nghefn gwlad.

(iii) Tai - llacio ar y rheolau cynllunio ar gyfer datblygu tir amaethyddol i adeiladu stadau tai; mae yna bobibilrwydd yn y dyfodol y bydd hyn yn ymestyn i annogaeth hollol agored i ryddhau tir ar gyfer y datblygiadau tai.

Digwydd hyn i gyd mewn hinsawdd lle mae amaethwyr yn cael eu gwasgu ar bob ochr - cwotau llaeth a'r symudiad i werthu cwotau i amaethwyr-busnes De-ddwyrain Lloegr; lleihad yn y cymorthdaliadau o Ewrop; ar peryg y bydd ffermwyr defaid fel ffermwyr llaeth a chig eidion yn gwynebu llai o gefnogaeth. Y tristwch yw mai'r unedau fferm teuluol sydd yn mynd i ddioddef waethaf ac mai'r ardaloedd Cymreiciaf yng Nghymru sydd yn wynebu'r argyfwng. Yn y Gogledd, o ganlyniad i adeiladu ffordd ddeuol ar hyd yr arfordir gwelwyd cynnydd sylweddol eisoes yn y nifer o geisiadau cynllunio ym maes twristiaeth a thai. Gall Gwynedd ddatblygu fel y maestref diweddaraf ar gyfer y dosbarth canol ariannog yn gweithio yng Ngogledd Orllewin Lloegr; Seisnigwyd Dwyrain Clwyd yn rhyfeddol 20 mlynedd yn y ffordd

yma; gwelwyd ymestyniad o hyn i Ddyffryn Clwyd yn y degawd diwethaf.

Gwèl y Gymdeithas fod hyn yn hollol annerbyniol. Swyddogaeth rheolau cynllunio yn ein tŷ ni yw i warchod buddiannau'r gymuned, ac i amddiffyn cymunedau rhag ecsplôitio tymor byr. Nid rheolau cynllunio sydd ar fai am broblemau economaidd Cymru ond methiant polisiau Thatcher. Beth sydd ei angen yng nghefn gwlad Cymru yw statws cynllunio llawn i'r Iaith Gymraeg a datblygiad polisiau cyffanol i sicrhau na ddinistrio sylfaen cymdeithasol a diowylliannol ein cymunedau. Dylid ymateb i anghenion pobl yn eu cymunedau nid caniatáu i hapfasnachwyr ddinistrio cymunedau er mwyn gwneud mwy o elw. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar gynllunio cymdeithasol lle y gall pobl yn eu cymunedau gymryd rhan uniongyrchol mewn llunio polisiau ar gyfer eu hardaloedd. Beth sydd ei angen yw mwy, nid llai o reolaeth dros y math o hapfasnacheiddio di-egwyddor a welwydd ar ei waethaf gyda'r datblygiadau arfaethedig ym Morfa Bychan.

Yn yr un modd gyda'r diwydiant ymwelwyr, gwelwn gynghorau yn rhuthro i ddatblygu cynlluniau uchelgeisiol dwys-gyfalaf heb roi ystyriaeth i effeithiau'r datblygiadau nid yn unig ar yr Iaith Gymraeg ond ar holl sylfaen cymdeithasol yr ardaloedd gwledig. Mae sefydlogrwydd cymdeithasol yn holl-bwysig i gymdeithas iach ac yn y cyfnod post-ddiwydiannol yma, gwerthoedd cymdeithasol yn seiliedig ar hynny, ac nid athroniaeth 'ar dy feic' y Toriaid sydd ei angen. Heb os nac onibai y bygythiad i amaethyddiaeth yw'r un fwyaf difrifol.

Yn ystod y misoedd nesaf bydd Cymdeithas yr Iaith yn ymgyrchu yn erbyn y tueddiadau a'r newidiadau sydd ar y gorwel. Digwydd Seisnigo yn ein cymunedau o ganlyniad i rymoedd y farchnad rydd, dyna pam fod angen polisiau sosialaidd. Gall pawb gymryd rhan yn yr ymgyrch yma ac mae croeso i bawb sy'n rhoi blaenoriaeth i anghenion y Gymraeg i ymuno â ni. Tila iawn yw'r esgusodion i sefyll ar un ochr - fel y dywedodd Saunders Lewis yn 1962 "A oes o gwbl draddodiad o amddiffyn politicaidd i'r Iaith Gymraeg? Nid gofyn yr wyf a oes traddodiad o frolio'r iaith mewn areithiau politicaidd neu gan wleidyddion ar lwyfan Eisteddfod. Yn hytrach gweld yr iaith fel y mae Llywodraeth Lloegr wedi ei gweld hi erioed, yn fater politicaidd, ac o'i gweld hi felly ei chodi'n faner i'r frwydr?" Ar ôl 25 mlynedd o ymgyrchu dros yr Iaith Gymraeg gall aelodau o Gymdeithas yr Iaith roi ateb cadarnhaol i'r cwestiwn yma.

Toni Gruffydd Schiavone

Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

DERWYN HUGHES

**Treflys
PENISARWAUN**

**Ffôn Llanberis
870945**

Am
nenfydau
a waliau
siapus

Antex

ETHOLIADAU'R CYNGHORAU

WARD CWMYGLO O GYNGOR CYMUNED LLANRUG

Mae pump o ymgeiswyr yn ymladd etholiad am bedair sedd ar Ward Cwm y Glo. Y tri cynghorydd presennol yw Brian Jones, Gwyn Hefin Jones a Geraint Pritchard, sy'n ail-gynnig eu hunain ar y Cyngor. Y ddau ymgeisydd o'r newydd yw Bethan Jones ac Olwen Rees Jones.



BETHAN JONES

Actores o Fwlch Grwnog, a phriod â Huw Williams sy'n Rheolwr Cynhyrchu. Mae'n enedigol o Rosllannerc-hrugog, ac yn byw yng Nghwm y Glo ers 4 blynedd. Mae'n aelod o bwyllgor drama Cyngor Celfyddydau Cymru. Cred ei bod yn bwysig cael cynrychiolaeth gytbwys o ferched a dynion i wasanaethu'r gymuned, yn ogystal â gwael newydd ifanc.



OLWEN REES JONES

Swyddog Addysg lechyd gydag Awdurdod lechyd Gwynedd. Yn briod, gyda merch 19 oed yn astudio dawns a drama. Yn enedigol o Dan y Coed, ac yn byw'n awr yn Cefn Bwlch. Addysgwyd yn Ysgol Brynrefail, Llanrug a bu'n dilyn cwrs nyr-sio yn Llundain. Mae'n aelod o Lywodraethwyr Ysgol Uwchradd Brynrefail, a bu'n Gadeirydd am ddwy flynedd. Mae'n teimlo fod presenoldeb merched ar y Cyngor yn hanfodol bwysig i lwyddiant gweith-gareddau'r Cyngor.



GWYN HEFIN JONES

Aelod o'r Cyngor Cymuned ers nifer o flynyddoedd ac yn Is-gadeirydd y Cyngor presennol.




BRIAN JONES

Aelod o'r Cyngor Cymuned ers nifer o flynyddoedd. Yn aelod ar Gyngor Arfon dros Ward Llanberis a Chwm y Glo, ac yn awr yn sefyll etholiad ar Gyngor Arfon dros Ward Llanrug.

**CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR**

WARD BETHEL O GYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Derbyniwyd pump o enwebiadau am bedair sedd yn Ward Bethel o Gyngor Cymuned Llanddeiniolen. Nid oes yr un o gynghorwyr presennol Ward Bethel yn ail-gynnig eu hunain, felly bydd cynrychiolwyr newydd sbon dros y Ward yn dilyn yr etholiad ar Fai 7fed.



GWYN EDWARDS

5 Tai Cae Rhos, Seion
(Cymru Goch)



RONALD WILLIAM HUGHES

Pennant, Seion
(Annibynnol)



RICHARD LLOYD JONES

5 Y Ddôl, Bethel
(Plaid Cymru)



IDRIS MORRIS

Rhoslan, Llanddeiniolen
(Annibynnol)



GERAINT PRITCHARD

Aelod ar Gyngor Cymuned Llanrug ers nifer o flynyddoedd.



22 BRYNTIRION

**TAC SIS
WEBB**

PENISARWAUN

Ffôn:
Llanberis

870145

**Gwasanaeth 24 awr – pell ac agos
Gwasanaeth Maes Awyr
a Phorthladd
Gwaith Contract**



**DEWI VAUGHAN
ROWLANDS**

23 Y Ddôl, Bethel
(Plaid Cymru)

CYMUNED LLEOL

WARD PADARN O GYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Bydd 14 o ymgeiswyr yn sefyll etholiad am 11 sedd ar Wardd Llanberis o'r Cyngor Cymuned. Dyma nhw ynghyd â'r disgrifiad ohonynt ar eu papurau enwebu.



KENNETH HUGH JONES
(Ken James Painter)



GWILYM TUDOR EVANS
(Gwilym Gift Shop)
Plaid Cymru



SELYF NOEL HUGHES



CLEDWYN JONES
Swyddog Ambiwlans Awud-
rodd Iechyd Gwynedd



ELWYN WILSON JONES
Llafur



IEUAN ELLIS JONES
(Jos Chemist)
Plaid Cymru



SUSAN CHRISTINE LOWE
Gweithiwr Crefft



IDWAL BERTRAM PARRY
(Mab George Parry Saer gynt)
Plaid Cymru



GWILYM WYN ROBERTS
(Hogyn Wil Lôn Bost)
Plaid Cymru



LLEWELYN LLOYD ROBERTS
Llafur




EURWYN THOMAS
Annibynnol



GORDON WILLIAMS
Llafur



GWYNFOR WILLIAMS



JOHN GWYN WILLIAMS
(Arweinydd Clwb Ieuencid)



STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis **871210**

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyr ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

A dewis rhagorol o Fideos i'w benthg
Hefyd yn Siop

FFYN A CHERRIG, STRYD FAWR, LLANBERIS

ETHOLIADAU LLEOL AR GYNGOR ARFON

WARD LLANBERIS

DEWIS UN O DRI:-

FRANCIS JONES (Llafur)

Cefais yr anrhydedd o'ch cynrychioli ers bron i bymtheg mlynedd ar Gyngor Arfon. Credaf bod profiad mewn Llywodraeth Leol yn gaffaeliad mawr i gael sylw i'r ardal. Mae'r pentref yn cael ei weddnewid, a credaf y bydd o fudd mawr i fusnesau lleol, yn westai, siopau, tai bwyta a chyflogaeth. Mae llawer i'w wneud eto, hoffwn gario ymlaen gyda'r gwaith. Gyda'r newidiadau yn ffiniau'r ward cofiwch mai un cynrychiolydd sydd ei eisiau".



ALUN ROBERTS (Sosialed Annibynnol)

Rwyf yn ŵr priod a thri o blant. Cefais fy ngeni a'm magu yn Llanberis, ac rwyf wedi byw yn Nant Peris ers saith mlynedd. Chwe mlynedd yn ôl, yn hytrach na bod yn ddiwaith, dechreuais fy musnes fy hun fel glanhawr simneau, ac yr wyf yn parhau gyda'r gwaith hyd heddiw.

Rwyf yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r ardal: yn rhiant-lywodraethwr etholedig Ysgol Dolbadarn, yn weithgar gyda'r Clwb Pêl-droed, ac hefyd yn cynnal cystadleuthau cwis.

Ers amser bum yn bryderys ynglŷn ag anfodlonrwydd Cynghorwyr lleol i fynd i'r afael â phynciau lleol pwysig, megis y lefel uchel o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc, a'r fasnach gyffuriau. Roedd eu hanfodlonrwydd i roi cymorth i'r glowyf oedd ar streic, ac i chwarelwyr Blaenau Ffestiniog, yn rheswm arall pam y penderfynais sefyll yr etholiad hwn fel Sosialed Annibynnol.

Teimlaf fod angen meddwl ieuanc, mwy treiddgar i ymladd y Llywodraeth Dorfaidd bresennol, ac hefyd i wneud pobl Llanberis a Nant Peris yn fwy ymwybodol o'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud - neu'n peidio a'i wneud. Mae gormod o waith Cyngor yn cael ei wneud mewn dull cyfrinachol fel nad oes ymgynghori â'r bobl leol cyn i benderfyniadau gael eu gwneud. Mae'r gwastraff diweddar o gymorthdaliadau'r GEE (EEC) yn achos dan sylw.



KENNETH JONES (Annibynnol)

'Rwyn ŵr priod, yn rhiant ac yn enedigol o bentref Llanberis. Peintio ac addurno yw fy ngalwedigaeth ac rwyf byw yn yr un cylch a'm ganed ynddo bum deg o flynyddoedd yn ôl.

Fy mhrif ddiddordeb, ar wahan i'm teulu, yw Plwyf Llanberis, ei bobl a'i bethau. Treulias fy amser hamdden yn ceisio cynorthwyo'r gwahanol fudiadau i weithio er lles yr ardal a'i thrigolion.

'Rwyf yn aelod o Gyngor Cymdeithas Llanberis ers pedair blynedd ar ddeg, ac yn ystod y cyfnod yma cefais y ffraind a'r profiad o weithio ar wahanol gynlluniau a phwyllgorau llywodraeth blwyfol.

1. Blwyddyn yn Gadeirydd y Cyngor.
2. Cadeirydd Pwyllgor Sefydlu Angorfa.
3. Cadeirydd Pwyllgor Rhedeg Angorfa.
4. Aelod o'r Is-bwyllgor Cynllunio.
5. Aelod o Is-bwyllgor Rheoli y Lanfa.
6. Aelod o Bwyllgor Cyswllt CEBG.
7. Pwyllgor Cyswllt Cyngor Arfon i ddatrus problem defaid crwydrol.
8. Aelod o Bwyllgor Sgannydd Gwynedd.
9. Aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Gymdeithasol Llanberis.

Mae fy niddordeb ym mhiant yr ardal yn bur amlwg ac yn ddwfn, a baint fawr yw cael eistedd dros y Cyngor ar fwrdd Rheolwyr Ysgol Dolbadarn. Gallaf eich sicrhau fy mod yn gwerthfawrogi'r anrhydedd yma, o fod yn un o Reolwyr fy hen ysgol, ac y gwnaf bob peth yn fy ngallu i genfogi'r Prifathro newydd, a'r oll o'r athrawon er sicrhau ysgol llwyddiannus a hapus i blant y fro.

Yn y flwyddyn 1972 fe'm codwyd yn Llywydd pwyllgor i drefnu diwrnod carnifal y pentref. Ym mwrdfrydded llwyddiant y fenter cafwyd carnifal a gweithgareddau am wythnos o'r flwyddyn ganlynol hyd heddiw. Bum yn Llywydd ar y gweithgareddau am un mlynedd ar ddeg ac rwy'n dal yn aelod gweithgar llawn brwdfrydded o'r pwyllgor. Gwyr pawb gymaint mae'r Carnifal wedi ei wneud i godi arian tuag at fudiadau ac achosion da y pentref:

1. Cyfrannu £10,000 tuag at y Ganolfan Gymdeithasol.
2. Cychwyn cronfa i gael byrddau snwcer yn y Ganolfan.
3. Sefydlu traddodiad o noson o gân y Sul cyn bob Carnifal.
4. Cyfraniadau tuag at fudiadau'r pentref.
5. Offer i gartre'r henoed, Pen Gwaith.

Y tim pêl-droed yw fy niddordeb mawr arall. Bum dros bum mlynedd ar hugain ar y pwyllgor a chefais fy ngwneud yn aelod anrhydeddus yn 1975 am fy ngwasanaeth i'r Clwb. Yn y cyfnod yma bu cydweithio dyfal i wireddu

uchelgais y Clwb, sef cael prynu y cae pêl-droed.

Erbyn heddiw, wedi blynyddoedd o ymdrech, mae y Clwb yn berchen ar y cae a gellir dweud o'r diwedd fod llain o dir i'r plant a'r llanciau gicio pêl yn Llanberis tra pery'r gêm.

Gwelwch oddi wrth fy nghyflwyniad i'm cais am gefnogaeth nad siaradwr mohonof ond gwneuthurwr. Gyda'r gosodiad yna 'rwyf nawr yn gofyn am eich cefnogaeth a'ch ffydd ynof i'm hethol fel eich aelod ar Gyngor Bwrdeistref Arfon. O gael y ffraind addunedaf i roi fy holl egni yn y gwaith; i ddod a phob sylw er dod a gwelliannau

i'r Plwyf; i roi gwybod gerbron yr etholaeth yr hyn oll sydd yn mynd ymlaen fel nad oes dim yn y dirgel ac i wrando a cheisio gwneud tegwch â phob unigolyn.

Diolch i chwi oll am ddarllen fy anrchiad ac edrychaf ymlaen at eich cefnogaeth ar Fai 7fed.

Cefnogwch Ein Hysbysebwyf

WARD Y WAUNFAWR

DEWIS UN O DDAU:-



GWILYM OWEN WILLIAMS (Annibynnol)

Cefais fy ngeni ger Beddgelert, ac wedi byw yn y dyffryn y rhan helaeth o fy oes. Deuthum i fyw i'r Waunfawr ddeunaw mlynedd yn ôl pan ymgymrodd fy ngwraig swydd fel nyrs yn y gymuned. Mae gennyf ddwy ferch sydd yn eu blwyddyn olaf yn y coleg. 'Rwyf yn 53 mlwydd oed ac yn gweithio ers dros ddeng mlynedd ar hugain gyda chwmni sment blaenllaw. Credaf fod gennyf wybodaeth sylfaenol o anghenion y sir mewn datblygiadau cymdeithasol fel ysbytai, pwerdai, ysgolion a datblygiadau tai a ffyrdd ac y gallaf anelu i wella'r cyfleusterau hyn yn yr ardal.

Yn ddiweddar 'rwyf wedi cymryd diddordeb helaeth mewn gweithgareddau gwirfoddol i wella cyfleusterau'r ardal. 'Rwyf, dros y pum mlynedd diwethaf, wedi bod yn aelod gweithgar o'r cyngor cymuned. 'Rwyf yn fy nhrydded tymor fel arweinydd ieuencid yr ardal, ac yn gyflyslog â hyn, credaf fod fy mhrofiad gyda'r genhedlaeth ifanc ac fel rhiant wedi fy nghynorthwyo i adnabod anghenion y gymuned.

'Rwyf yn sylweddoli problemau'r diwaith, a chan fod fy ngwraig yn nyrs, teimlaf fy mod yn gweithfawrogi problemau'r cartrefi ac iechyd yr ardal.

Er bod peth gwellainnau wedi cymryd lle yn y gorffennol, credaf fod angen ychwaneg o sylw i faterion pwysig eraill. Gyda toriadau yn y gyllid presennol rwyf yn erbyn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar y gymuned i sicrhau cymwysterau

derbyniol yn yr ardal.

Os caf fy ethol, 'rwyf am weithio tuag at safon gwell o adloniant, teithio a chyfleusterau cyffredinol. 'Rwyf am weithio tuag at bolisi i sicrhau fod yr ardal yn derbyn ei chyfran o'r gyllid swyddogol.

'Rwyf yn sefyll yn gadarn fel ymgeisydd annibynnol. Bydd hyn yn caniatáu imi bleidleisio er mwyn budd y gymuned, ac i wasanaethu'r ardal yn rhydd oddi wrth ddylanwad unrhyw gorff politicaidd.

Gan fy mod yn byw yn yr ardal ac yn gweithio'n lleol byddaf bob amser mewn cysylltiad parhaus â phroblemau'r gymuned.

Apelaf felly am eich pleidlais a'ch cefnogaeth yn yr etholiad ar Fai 7ed. Gyda'ch cydweithrediad chwi, credaf y gallwn sicrhau dyfodol llewyrchus i'r gymuned gyfan.

RICHARD G. JONES

(Plaid Cymru)

NEWYDD AGOR! SIOP BAENT

STORFA Tŷ NEWYDD

BRWSHUS . TYRPS
POLIFFILA . BWCEDI
'HARDWARE' AC ATI

WARD BETHEL A RHIWLAS

DEWIS UN O DDAU:-



SAMUEL JONES
(Annibynnol)

Ar y 7ed o Fai, cewch gyfle i ddewis eich cynrychiolydd ar Gyngor Bwrdeistref Arfon, ac fel eich aelod presennol, gofynnaf unwaith eto am eich cefnogaeth.

Os y bydd imi gael fy ethol, 'rwyf yn tyngedu fy hun i'ch gwasanaethu hyd eithaf fy ngallu bob amser ac ar bob lefel, yn yr un modd ac y bu i mi geisio gwneud ers 1964, drwy ddatgan yn gryf y pryder mewn perthynas â'r problemau sydd yn codi yn ddyddiol ym mhob cartref yn yr etholaeth yma.

Yn ystod y bedair blynedd olaf, bum yn aelod o'r pwyllgorau Cyllunio, Ariannol a Thai, ac yn gadeirydd Pwyllgor Tai a Phwyllgor Cynllunio. Bum hefyd yn aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Bryn'refail.

Mae pob rhan o'r etholaeth yn adnabyddus i mi, a mentraf ddweud fy mod yn adnabod y mwyafrif ohonoch.

Pobl sy'n bwysig i mi, ac nid **Plaid**. Mae drws y Cefn yn agored i bawb. Fel yn y gorffennol, byddaf yn falch o gael gwrando a cheisio datrys eich problemau.

'Does gen i ddim bwriad o wneud addewidion na ellir eu cyflawni. Ni allaf

addo dim ond y gwnaf fy ngorau.
SAM JONES



GWEN AARON
(Plaid Cymru)

Miss Gwen Aaron, athrawes Physeg yn Ysgol Tryfan, Bangor, fydd ymgeisydd Plaid Cymru yn wardiau Bethel a Rhiwlas ar gyfer yr etholiad Cyngor Dosbarth a gynhelir ar Fai 7ed.

Ar ôl graddio yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth, bu'n athrawes yn Ysgol Gymraeg Rhydfelen, cyn dod i Fangor.

Mae'n byw yng Ngwelfor, Carreg y Gath, Rhiwlas ers rhai blyneddodd bellach ac wedi hen gartrefu yn yr ardal.

Mae'n aelod o Gangen leol Merched y Wawr ac yn aelod o Eglwys Peniel (A) Waen Pentir.

Y Cynghorydd presennol yw Mr. Sam Jones, Cefn, Llanddeiniolen.

YN ÔL YN DDI-WRTHWYNEBIAD

WARD PENISARWAUN A BRYNREFAIL



PAT LARSEN
(Plaid Cymru)

Diolch i chwi yr holl etholwyr am eich cefnogaeth unwaith eto. Gwerthfawrogaf eich ffydd ynof, a gwnaf fy ngorau glas i gyfiawnhau'r ffydd hwnnw. Gyda diolch, a phob bendith arnoch oll.

WARD DEINIOLEN



JACOB JAMES
(Annibynnol)

Diolchaf am eich cefnogaeth dros y blyneddodd a fu, ac ymdrechaf i weithio ar eich rhan dros y bedair blynedd nesaf.

ETHOLIAD CYNGOR CYMUNED LLANBERIS:- WARD NANT PERIS

Mae tri o ymgeiswyr yn ymladd am 2 sedd ar Ward Nant Peris o Gyngor Cymuned Llanberis.



GWILYM S JONES

Bu'n aelod o'r Cyngor ers ymron i bum mlynedd ar hugain.



ALUN ROBERTS

Genedigol o'r ardal; mae'n byw yn y Nant ers saith mlynedd. Mae hefyd yn sefyll etholiad ar Gyngor Arfon dros Ward Llanberis.



EMLYN BAYLISS

Tafarnwr 38 oed sy'n briod gyda dau o fechgyn. Mae'n enedigol o'r ardal ac yn byw yn y Nant ers dros 5 mlynedd.

WARD LLANRUG

DEWIS DAU O DRI:-



BRIAN JONES
(Llafur)

Mae'r Cynghorydd Brian Jones wedi cynrychioli Ward Llanberis, Cwm-y-Glo a Bro Rhythallt, Llanrug ar Gyngor Bwrdeistref Arfon ers mis Awst 1980. Mae yn 40 mlwydd oed, wedi ei eni a'i addysgu yng Nghaernarfon. Mae'n briod, a chanddo ferch 19 mlwydd oed sydd yn dilyn cwrs gradd mewn dawns a drama yng Ngholeg Leicester. Mae ei wraig Olwen Rees, sy'n enedigol o Tan-y-Coed yn Swyddog Addysg Iechyd gydag Awdurdod Iechyd Gwynedd.

Wedi gadael ysgol, cafodd brentisiaeth fel argraffwr cyn dilyn cwrs Celf yng Ngholegau Caer a Lerpwl. Bedair blynedd yn ôl sefydlodd gwmni cydweithredol Argraffwyr Eryri ym Methel.

SION HUMPHREYS

(Plaid Cymru)

DAFYDD WHITESIDE THOMAS

(Plaid Cymru)

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

**YSGOL YRRU
OFALUS**

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD

**43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112**

Cymeradwyr gan yr Adran
Drafnidiaeth

**DEFNYDDIWCH
EICH PLEIDLAI**
Dydd Iau, Mai 7fed

DEINIOLLEN

GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

CYMDEITHAS CHWIORYDD UNEDIG YR OFALAETH: Nos Iau Ebrill 2, cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas Chwiorydd Unedig yr Ofalaeth, yn Ffestri Disgwyllfa. Y Llywydd oedd Mrs Miriam Lewis. Anfonwyd cofion cynnes iawn at y rhai hynny oedd yn methu a bod yn brsenol trwy waeledd, ac estynwyd cyfarchion at aelodau y dair eglwys sydd yn wael eu hiechyd.

Estynwyd cydymdeimlad â Miss Kathleen Jones, Prenteg yn ei phroffedigaeth sydyn a thrist, a dymunwyd hefyd adferiad iechyd buan iddi ar ôl ei thriniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd.

Bydd Sasiwn y Chwiorydd eleni yn cael ei chynnal ar ddydd Mawrth Mai 5ed, yn Rhuthun. Os oes thai o'r chwiorydd yn dymuno mynd, a fyddent cystal â rhoi eu henwau i Mrs Miriam Lewis, Llys Myfyr, cyn gynted a phosibl?

Treuliwyd y rhan olaf o'r cyfarfod gyda Mrs Miriam Lewis yn adrodd hanes diddorol ei thaith yn Israel yn ddiweddar.

Rhoddwyd y te am y mis hwn gan Mrs Ruth Jones a Mrs Margaret Owen, a diolchwyd iddynt.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar Nos Iau Mai 7ed. Estynnir croeso cynnes i chi ymuno â ni.

DIOLCH: Dymuna NMrs M Price, 5 Porth Gogledd ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed. Dymuna Mr a Mrs Idwal Jones, 18

Hafod Olau ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r llw caridau, a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas ruddem yn ddiweddar.

Dymuna Mr a Mrs Gwyn Parri, Cynefin, ddiolch yn fawr i bawb am y llw o cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur geni eu merch, Heledd Bryn.

Dymuna Bethan Diana Jones, 1 Rhes Cynfi, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion oll, am y llw o anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phenblwydd yn ddeunaw oed ar Fawrth 10ed. Dymunai Jean a Caradoc, 1 Rhes Cynfi ddiolch hefyd i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llw o anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Arian ar Fawrth 24ain.

Dymuna Claire, Delyth a Lil, ddiolch i bawb gyfrannodd ac a gefnogodd y ddau 'Fore Coffi' - un ym Mhentre Helen a'r llall yn y Bull. Gwnaed elw tuag at y Sganiwr Corff, Ysbyty Gwynedd. Diolch o galon i chi i gyd.

NEWID ARDAL: Trist iawn gennym glywed fod Mrs Mary Jones, 4 Bwthyn wedi penderfynu symud o Ddeiniolen i Fangor. Mae ei holl ffrindiau yn teimlo colli Mrs Jones sef Aunt Mary, roedd bob amser yn barod ei gwên a'i chymwynas. Roedd wedi bod yn byw yn yr ardal am flynyddoedd a hefyd ei phlant. Rhoddodd ei gŵr sef Hughie Jones ei wasanaeth ym mhob cyngerdd am flynyddoedd lawer. Mae yr ardal yn dymuno pob hapusrwydd iddi yn ei chartref newydd, bydd croeso yn Neiniolen iddi bob amser.

CRONFA CYMHORTHAU MEDDYGOL DEINIOLLEN A'R CYLCH: Yn ddiweddar trosglwyddodd Dr. N. Marren y swm o £596.50 er cof am ei diweddar fam, sef Mrs Christine Marren, Plas Eryr, Deiniolen. Defnyddir yr arian gan y pwyllgor i brynu offer meddygol i gleifion yr ardal.

MERCHED Y WAWR: Cyfarfu'r Gangen nos Lun, Mawrth 30 dan lywyddiaeth Mrs J Eirlys Williams. Croesawyd Mrs Gweneirys Jones, Y Waunfawr i'r cyfarfod, gan ei bod yn gwneud arolwg ar ran y mudiad ynglŷn â safle'r laith Gymraeg a'r dysgwyr. Cafwyd noson hwyliog o Gawl a Chân, gyda'r noson yng ngofal Mrs Miriam Lewis, Miss Jean Moëller, Mrs Eirlys Williams a Mrs Marian Wyn Williams.

Mynegwyd cydymdeimlad â Miss Kathleen Jones a dymunwyd yn dda iddi ar ei hymwelid ag Ysbyty Gwynedd. Llonyfarchwyd Mrs Gwladys Jones, Hafod Oleu ar ei Phriodas Ruddem, a'r plant o'r pentre a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd, gan ddymuno iddynt pob llwyddiant ym Merthyr Tudful. Diolchwyd i'r rhai fu'n paratoi'r wledd gan Mrs Betty W Davies a Mrs M P Morris. Enillwyd y raffl gan Miss K Jones.

Nos Fercher, Ebrill 14ef, cyfarfu'r Gangen dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Williams. Cafwyd arddangosiad o deganau meddal gan Mrs Mary Evans, Rhosgadfan, un o blant yr ardal. Eglurodd inni sut y byddai yn gwneud y teganau ac anrhegwyd pob un o'r aelodau oedd yn bresenol â bag lafard, a rhoddodd degan i'r gangen i'w rafflo yn eu cyfarfod nesaf. Diolchwyd yn gynnes i Mrs Evans gan y Llywydd ac amryw o'r chwiorydd. Cafwyd cais gan Mrs Nest Evans i ofyn i'r chwiorydd a fuasent yn fodlon mynd i Ganolfan Dinorwig ar fore Mawrth, Ebrill 28ain i siarad â'r dysgwyr Cymraeg er mwyn iddynt arfer siarad yr iaith.

Gwesteion y te oedd Mrs Jane Jones a Mrs Mary Morris, a diolchwyd iddynt gan Mrs Medwen Griffith. Enillwyd y raffl gan Miss Jean Moëller.

DIOLCH: Dymuna Mrs Esther Ann Williams, Arfon House, Deiniolen ddiolch i'w holl deulu, cymdogion a ffrindiau yn Neiniolen a Bethesda am y llw o cardiau a blodau a gafwyd ganddi tra yn derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd. Diolch hefyd am garedigrwydd a gofal y meddygon a'r staff yn Wardiau Glyndŵr, Conwy ac Alaw.

Dymuna Dewi Rees Williams, 12 Rhes Deiniol ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddo pan yn dathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ar Ebrill 1af.

Dymuna Olwen Hughes, 50 Rhydfadog ddiolch am y llw o cardiau a'r caredigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac hefyd ar ôl dod adref. Diolch hefyd i'r meddygon a'r gweinyddesau yn Ward Ogwen, Ysbyty Gwynedd.

SEFYDLIAD Y MERCHED:

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Ebrill 6ed dan arweiniad Mrs Rita Parry Jones, y Llywydd. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol a darllenwyd y cofnodion gan yr Ysgrifennydd.

Croesawyd y gŵr gwadd, y Parch Gwynfor Williams, gan y llywydd. Cawsom noson ddifyr iawn gyda Mr Williams yn dangos sleidiau. Diolchwyd iddo gan Mrs J E Williams. Cafwyd Moes a Phryn gyda Miss Jean Moëller yn gofalu am y bwrdd. Rhoddwyd y te gan Mrs Rita Parry Jones a Mrs Marion Williams. Enillwyd y raffl gan Miss Jean Moëller a Mrs Janice Land. Cydymdeimlwyd â Miss Kathleen Jones ar golli ei hewythr a dymunwyd gwellhad buan i Miss Jones, sydd yn yr ysbyty. Dymunwyd gwellhad buan hefyd i Mr Owie Hughes a Mrs Beryl Hughes sydd newydd ddod o'r ysbyty. Llonyfarchwyd Miss Lena Rowlands, merch Mrs Nancy Rowlands ar gael ei gwneud yn 'Sister' yn Ysbyty Gwynedd. Llonyfarchwyd hefyd Miss Helen Hughes, merch Mrs Gwen Hughes ar ei llwyddiant yn pasio ei arholiadau a dymunwyd yn dda i Mrs Hughes yn ei chartref newydd ym Methel.

Croesawyd aelod newydd hefyd sef Mrs Janice Land, Cae Hop. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fercher, Mai 13eg pan ddisgwyllir Mrs Rhian Owen, y VCO i drafod y Cyfarfod Cyffredinol sydd i'w gynnal yn Llundain ym mis Mehefin. Taer erfynnir am bresenoldeb yr oll o'r aelodau nos Fercher, Mai 13.

CLWB ELIDIR: Bu cyfarfod o'r uchod nawn Mawrth 24 o Fawrth, dan lywyddiaeth Mrs M Lewis. Y siaradwr gwadd oedd Mr David Jones, gwerthwr pysgod o Benmaenmawr. Cafwyd ganddo sgwrs ddifyr yn datgan y ffordd yr aeth i mewn i'r busnes a disgrifiodd y modd y byddai yn paratoi y pysgod a'r ieir roedd yn eu gwerthu. Mwynhawyd y sgwrs a'r fideo yn fawr. Diolchwyd iddo gan amryw o'r chwiorydd. Darparwyd lluniaeth gan Mrs Nancy Rowlands, Mrs Eirlys L Jones, Miss Eileen Williams a Mrs J Eirlys Williams, a diolchwyd yn gynnes iddynt gan Mrs M. Lewis.

Mynegwyd cydymdeimlad â Miss Kathleen Jones yn ei phroffedigaeth o golli ei hewythr.

Cafwyd cyfarfod arall o'r Clwb brynhawn Mawrth, Ebrill 21ain, dan lywyddiaeth Mrs Miriam Lewis.

Gan mai Mrs Lewis oedd y siaradwr, fe'i cyflwynwyd hi gan yr Ysgrifennydd. Cafwyd hanes y daith i Israel gan Mrs Lewis, yn hynod gartrefol a diddorol, a dangoswyd lluniau a chelfi o waith brodorion y wlad. Diolchwyd iddi gan Mrs Ellen Williams. Rhoddwyd y te gan Miss K Jones, Mrs Mair Lewis, Mrs J C Hughes a Mrs Jennie Williams, a diolchwyd iddynt gan y Llywydd.

Dymunwyd yn dda i'r cleifion a llonyfarchwyd Mrs E Griffith, Rhydfadog ar ei phen-blwydd yn 80. Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth, Ebrill 28ain.

Parhad ar dudalen 19



Dewiswyd Brenhines a Thywysoges Carnifal Deiniolen, 1987 gan Mr David Wyn Evans.

Y Frenhines newydd yw Delyth Ann Price, Tros y Waun, a Sian Wyn Evans yw'r Dywysoges newydd.

Y Prif Fachgen yw Sion Edwards a'r Macwy yw Euron Thomas Jones.



**BECWS
DEINIOLLEN**

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn:

LLANBERIS 870232

**BARA FFRES A
THEISENNAU BLASUS**

Hefyd gwerthwyr
CALOR GAS

Emyr Jones

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**

Cynnal Boileri, Gwaith
trin pibellau nwy,
olew, tanwydd solat.

**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513**



**SIMNEIAU GWael? CRACIAU?
MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?**

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

ECO'R IFANC

SIBRYDION O YSGOL BRYNREFAIL

NOSON GOFFI'R URDD: Nos Fawrth, Mawrth 24ain, cafwyd Noson Goffi lwyddiannus iawn yn yr ysgol, pryd y cafwyd y cyfle i wrando ar y rhai sydd wedi ennill yn Eisteddfod y Sir, ac yn mynd i lawr i Ferthyr, a'r rhai na fu mor ffodus. Diolch i baw a gefnogodd.

EISTEDDFOD SIR YR URDD: Llongyfarchiadau i Manon Llwyd Evans ac Alison Edwards a ddaeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth deuaud piano 15-19 oed yn yr Eisteddfod Sir. Daeth Manon yn gyntaf hefyd yn yr unawd piano 15-19 oed. Pob lwc i'r ddwy ym Merthyr ym mis Mai. Llongyfarchiadau hefyd i barti cyd-ardodd adran yr Urdd Bethel ar ddod yn gyntaf. Pob lwc iddynt.

CYSTADLEUAETH ARLUNIO'R URDD: Daeth tri o ddisgyblion yr ysgol yn fuddugol yng nghystadleuaeth arlunio'r urdd. Daeth Haf Owen 2A(1) yn gyntaf, Gethin Parry 1E yn ail a Nerys Powell 2A(2) yn drydydd. Llongyfarchiadau i'r tri ohonynt.

COLEG CYNCOED, CAERDYDD: Prynhawn Iau, Ebrill 2il, daeth Mr Iorwerth Morgan, Goleg Cyncoed, Caerdydd i ddangos fideo a rhoi sgwrs i ddisgyblion y chweched dosbarth ar y cyrsiau a gynigir yn y coleg. Cafwyd prynhawn difyr yn ei gwmni.

BWYTA'N IACH: Unwaith eto y mis yma daeth Nyrs Ceri Pierce i roi trafodaeth i'r chweched dosbarth ar fwyta'n iach a chadw'n heini. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn.

Y GYMDEITHAS WYDDONOL: Cafodd Manon Llwyd Evans ysgoloriaeth y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol i dreulio penwythnos yng Nghynhadledd y Gymdeithas yn y Coleg yn Aberystwyth. Llongyfarchiadau iddi a chawn adroddiad o'r cwrs ganddi y tro nesaf.

ARHOLIADAU CYRN: Llongyfarchiadau i'r canlynol a fu yn llwyddiannus gydag arholiadau cyrn, dan nawdd yr 'Associated Board of the Royal Schools of Music'. Pasiodd Gwyn Bowie Thomas (Pontreug), Iwan G. Williams (Deiniolen), Dylan Wyn Williams (Deiniolen), Bryn C. Jones (Pantmwyn, LLanrug) a David Jacobs (LLanrug) radd V, a phasiodd Aled Griffiths (Bethel) gradd III. Mr Dennis Williams, (athro teithiol pres y sir) a fu yn eu hyfforddi a Mrs Megan Roberts oedd yn cyfeilio.

GWEITHGREDDAU GWOBUR DUG CAEREDIN: Bydd pymtheg o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar gyfer Gwobr Pres Dug Caeredin. Bydd dau grŵp o bedwar yn heicio pymtheg milltir dros fynyddoedd ac yna'n gwersylla dros nos,

bydd grŵp arall o bedwar yn beicio i Ffestiniog ac yn aros mewn llety ieuencid yn Harlech cyn beicio'n ôl i Lanberis ar lwybr gwahanol, a fydd yn gyfanswm o tua cant o filltiroedd. Bydd y pedwerydd grŵp yn marchogaeth ceffylau am ddeunaw milltir i Foelfre ac yn cysgu mewn ysgubor dros nos, ac yna'n marchogaeth yn ôl ar ôl diwrnod o orffwysio i'r ceffylau. Y disgyblion fydd yn heicio yw Amlyn Evans, David Jacobs, Agnes Choy, Barley Massey, Michael Wrae, Richard Parry, Sian Lloyd, a Gill Glass. Darren Lamb, Steven Wrae, Stacey Turner a Lucas Crowe fydd yn beicio a Cora Jeavons, Julie Grindle a Karen Jones fydd yn marchogaeth. Pob hwyl iddynt.

NATUR

Gwelais gi yn chwarae hefo cwnigen yn diwrnod

Roeddynt yn edrych yn hardd iawn hefo'i gilydd

Fel plentyn yn chwarae hefo'i fam.

Meddyliais amdanaf fy hun yn chwarae hefo mam yn fabi

Yn sydyn cododd y ci y cwnigen yn ei geg fel dol

A'i ysgwyd yn ei geg, temlais fy nghalon yn cyflym

Gwaeddais yn uchel nes i'r ci redeg i ffwrdd

Cerddais at y gwnigen a oedd fel deilen ar y llawr

Doedd o ddim wedi marw am ei fod yn symud

Cyffryddais ynddo a'i roi yn fy nghôt

Roedd o'n teimlo fel anferth o wlad cotwm

Es ag ef adref a rhoi triniaeth iddo

Y diwrnod hwnnw roeddwn wedi sylweddoli er

fod byd natur yn brydferth, roedd yn greulon iawn hefyd

Trueni.

Dionne Hughes 3A(1)

YN EISIAU GOFALWR

I Gapel MC Tan y Coed, Llanrug i fyw yn y tŷ capel.

Ceisiadau i law erbyn Mai 16, 1987. Ymholiadau a manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: **Mrs Nellie Hughes, 4 Stryd Newydd, Cwm y Glo.**

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

ADREF O'R RHYFEL

Argraffiadau dwy o enethod o ddosbarth 4A(2) - eu disgrifiadau hwy o filwr ifanc yn dychwelyd i'w gartref ar ôl cyfnod yn y rhyfel.

"Rydwyf ar fy ffordd adref heddiw. Mae fy amser yn y rhyfel wedi dod i ben ac mae'n amser i fynd yn ôl at fy nheulu.

Rwyf nawr ar y trêr ar fy ffordd adref o'r rhyfel. Nid oeddwn yn cofio pa mor hardd ydoedd. Ond maen wchydig o amser mi fyddaf yn ôl gyda fy nheulu a fy nghariad a adewais ar fy ôl. Hiraethais amdani yn y rhyfel a nid anghofiais amdani am funud. A, nawr mae'n amser i mi fynd oddi ar y trêr."

Wrth gerdded ar hyd yr orsaf, teimlais fy mod mewn lle diarth. Roedd y lle wedi newid yn hollol. Nid oedd neb yma i'm cyfarfod. Doedd yna yr un enaid yn unlla.

Cychwynais allan o'r orsaf ac arhosais yn stond wrth y giât fawr. Edrychais o'm cwnpas. Nid hwn oedd y pentref a adewais rhai blynyddoedd yn ôl. Dim ond ychydig gerrig mwyach lle arferia siop fach y gornel fod.

Cychwynais am y stryd nesaf gan ddisgwyl y plant chwarae ar y ffordd, ond pan gyrhaeddais roedd tawelwch rhyfedd, dim plant, dim sŵn, dim ond rwbwl, cysidrais yn sydyn, tra bum i yn y rhyfel, buodd y rhyfel yma hefyd.

Cychwynais tuag at fy nghartref a'm calon yn drwm iawn.

Troeais y gongl ger yr hen dderwen fawr. Chwaraeais ganwaith ar hon pan oeddwn yn blentyn. Meddyliais mor rhyfedd fod yr hen dderwen wedi sefyll yma yr holl ganrifoedd, "Pe bai hon yn gallu dweud y stori?"

Dychmygais weld fy mam a'n nhad ar y drws yn fy nerbyn i gartref, ond yn sydyn, trawodd y gwir fi, mae' nghartref innau wedi ei ddinistrio, ond ble mae fy mam, ble mae fy nhad?

Teimlais law ar fy ysgwydd. Troeais i weld hen wyneb cyfarwydd Mr Williams, siop y gongl. "Beth ddigwyddodd i'r hen wên?" Roedd y rhyfel wedi chwalu hon hefyd.

"Ble mae fy ma.....?" cychwynais ofyn.

"Mae'n ddrwg iawn gennyf Bobi," meddai a'r dagrau yn llenwi ei lygaid.

"Pa bryd?", meddai ac aeth i ddweud am y noson y daeth awyrennau drosodd a distrywio y rhan yma o'r pentref gan adael dim ar ôl, dim ond yr hen dderwen fawr, fel tyst o'r hyn a fu. Meddyliais yn sydyn am yr holl enwau a oedd wedi eu naddu ar hyd-ddi fel cofgolofn hen gariadon y pentref.

"Beth am Magi?" Gweddais wrth ddisgwyl ei ateb. Roedd ei wên yn dweud y cyfan.

"Mae'n aros gyda ffrindiau. Bydd yn falch iawn o'th weld di."

Yn sydyn clywais ddrwg traed yn torri ar y distawrwydd, yna gwelais hi.

"Magi," gwaeddais. Safodd yn stond. Syllom ar ein gilydd am rai eiliadau. Yna rhedais i'w chyfarfod a disgynom i freichiau ein gilydd.

"Bobi, ti'n fyw! Roeddwn bron â rhoi fynd." Yna dechreuodd y dagrau redeg lawr ei boch. Cusanais y dagrau i ffwrdd.

"Rwy'n ôl Magi, 'rwy'n ôl, ac mae gennym ein gilydd. Rhaid dechrau o'r newydd ac edrych i'r dyfodol."

Ar hynny cychwynom yn ôl i lawr y stryd. Wrth fynd heibio'r hen goeden, edrychom ar ein gilydd, a theimlais gryfder a ffydd cryfach na theimlais ers blynyddoedd. Roedd dyfodol Magi a'n nyfodol i, yn un.

Vera Cuthbertson

"Asgob bach", meddyliais wrth gerdded i fyny Stryd y Foel. Roeddwn i wedi cael sioc fawr o edrych ar y stryd, llawer o'r tai wedi'u bomio, llwch a baw ar hyd y lôn fach, stopiais.

"O na, plis na," meddyliais, "dim fy nheulu i, plis na."

Cariais ymlaen yn gyflymach a gwelais, y tŷ yn sefyll yn ddel ar y gornel, a mwg yn dod allan o'r simdde. Gwelais fy mrawd bach yn chwarae yn yr ardd. Gwenais. "John!" gwaeddais.

"Robert! Mami, tyrd i sbio pwy sydd yma", gwaeddodd. Rhuthrodd fy mam allan wrth dynnu ei brat.

"Robert!" gwaeddodd, a rhedeg ataf.

"O mam! Rwy'n hapus eich bod yn iawn, mi roddwn yn meddwl pethau wrth ddod i fyny'r stryd", dywedais wrthi. Rhedodd John ataf ac mi afaelais ynddo. O! mi ro'n i'n hapus, yn hapus iawn!

Rhuthrant i mewn i'r tŷ a gwnaeth mam bryd o fwyd i mi. Mmm! Bwyd mam, rwyf wedi bod yn colli hynny!

"Lle mae'n nhad, ac Idwal?" gofynnais.

Gwelais wyneb mam yn troi'n ynnw a brathodd ei gwefus. Roedd rhywbeth wedi digwydd.

"Mam, beth sydd?" gofynnais.

"Mae dy dad wedi mynd am dro efo'r hen Dwm, dywedodd hi.

"Asgob! Yr hen Dwm! Yn fyw o hyd", dywedais, "A lle mae Idwal?"

"Robert, eistedda," dywedodd.

Rhewodd fy ysgyfaint gan feddwl fod rhywbeth wedi digwydd i Idwal.

"Robert, cafodd Idwal ei ladd!"

"Na! Na!) Pam fysech wedi ysgrifennu imi?" gwaeddais gan ddechrau crio. Criodd mam hefyd a dywedodd

"Robert, plis, roddwn eisiau dweud wrthaf wyneb yn wyneb. Cafodd Idwal ei ladd. Cafodd yr ysgol ei bomio tra roedd o yna, a does dim byd a allai wneud amdano. O Robert paid â chrio, rwy'n gwybod dy fod mewn sioc, O diar! Dos i fyny i dy ystafell, a chysga."

"Mam, rwyf mewn sioc mawr, ac mi'r ydwyf yn wyllt na wnaethoch ddim sgwennu imi, dwi'n mynd allan", a rhuthrais allan mewn sioc.

Ni fuais yn ôl tan yn hwyr. Cerddais i'r tŷ.

"O mam, rwy'n sori, rwyf yn iawn nawr, buais allan i feddwl", meddais. Cerddodd 'nhad i mewn.

"Nhad!" gwaeddais.

"Robert, Iesu, yli, ti di tyfu, f'machgen, tyrd i eistedd i siarad â dy dad", dywedodd.

Wel wrth siarad efo 'nhad, anghofiais am Idwal, ac aeth mam i'r geg i'n nôl glasiad o gwrw i ni. O! mi roeddwn i'n hapus i fod yn ôl adref, yn hapus iawn!

Karen Lloyd

**Wavell
Roberts**
CIGYDD

**LONDON HOUSE
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

**Aled
Jones**

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

**4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047**

**PORC CARTREF
80c y pwys**

hanner mochyn wedi ei
dorri â'i baratoi ar gyfer y
rhewgist

Cig Cyflawn Cymreig
Cysylltwch â June a Cynan
Jones, Tanybryn, Nanmor,
Beddgelert, Caernarfon.
Ffôn: Beddgelert 353

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

GWELLA: Bu Mr Gwilym G. Jones, Y Foel am gyfnod byr yn yr ysbyty, ac fe'i gorfodwyd i aros yn ei gartref am tua tair wythnos arall. O ganlyniad yr oedd ni yn "Sardis" yn colli ei wasanaeth gwerthfawr ar yr organ a hynny pan oedd yn ceisio meistrolu tonau newydd yn Netholiad Cymanfaoedd Canu y Bedyddwyr. Gwaith anodd yw ceisio ymarfer tonau heb arweiniad cyfeiliant organ, ac roedd nifer o'r tonau mewn Solfa yn unig.

Cafodd Mrs Elizabeth Jones, 6 Maes Eilian ei chludo i'r ysbyty am driniaeth, un chwim ar ei throed yw Mrs Jones, ac wedi etifeddu hyn oddi ar ei mam, y diweddar Mrs Morris "Pant Sardis". Hyderwn y caiff adferiad i'w chynefin iechyd.

Mae Mr a Mrs John Peris Roberts, 11 Maes Eilian, hwythau'n bryderus ynghylch brawd John Peris sef "Wil Esgeiriau" fel y gelwir ef, yntau yn yr ysbyty o dan driniaeth. Hyderwn ei fod yn ymateb i'r gofal a gaiff gan y meddygon a'r gweinyddesau.

CYDYMDEIMLO: Derbynied Mrs René Morris, 4 Maes Eilian ein cydymdeimlad yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer Mrs Ellen May Pritchard, 'Gwynfa', Penisarwaun. Fe gafodd y diweddar chwaer gystudd blin, ac roedd yng ngofal Cartref Nyrsio Porthmadog, pan ddaeth y diwedd i'w rhan.

DIOLCH: Yr oedd yn ein rhifyn diwethaf yn croesawu Mr Ifor Phillips yn ôl i Res-tai Maes Eilian. Mae yntau yn dymuno i ni ddiolch ar ei ran, i nifer o gyfeillion am eu cymwynasau iddo, a'r cymorth a gafodd i setlo'n ôl yn Ninorwig.

Y PASG: I raddau helaeth mae'r capeli yn anwybyddu Dydd Gwener y Grogllith, ond nid felly yr Eglwys yng Nghymru. Roedd oedfa dathlu'r Wyl Gristnogol hon yn St. Mair am 10 o'r gloch y bore a'r Parch. T.D. Williams, Llangaffo a arweinai'r gwasanaeth, ac yn ystod y prawn fe fu pobl ifanc St. Mair dan gyfarwyddyd Mr Glyn Thomas, yn cerdded yr ardal o un pen i'r llall gan gario croes fel arwyddlun o ddioddefaint y Gwaredwr pan oedd yntau'n cario croes o Jeriwsalem i gopa Bryn Golgotha a adwaenid fel "lle'r benglog". Mae gweithred fel hon yn cynorthwyo rhai i sylweddoli maint yr aberth a'r dioddefaint i achub y byd o bechod. Ar sail yr aberth y daw buddugoliaeth y "trydydd dydd".

Cyfnewidiol iawn yw'r tywydd - dydd Gwener y Grogllith yn well nag a fu ers blynnyddoedd, ond y dydd dilynol yn troi allan yn ddigon siomedig. Fe'n gorfodir o ganlyniad i adael y gerddi heb eu trin, a hyn wrth gwrs yn gwneud y tymor yn ddiweddar ac

araf. Nos Sul y Pasg, fe aethom ni o "Sardis" (B) i gapel "Penael", Banogr lle treuliasom oedfa yng nghwmni Bedyddwyr y cylch a chael cyd-gyfranogi o Swper yr Arglwydd. Fe fyddwn o gylch Dinorwig, Deiniolen, Bangor a Llanllechid yn ymuno mewn oedfaon undebol nifer o weithiau yn ystod y tymor rhwng y Pasg a'r Diolchgarwch. Fe ddichon i ni fodloni'n ormodol ar fod yn annibynnol ar ein gilydd yn y gorffennol. Da yw gweld y "llwythau'n dod ynghyd". Treuliodd ein cyfeillion o Ddinorwig (M.C.) Sul y Pasg yng nghyrrddau pregethu Capel "Cefn y Waun" (M.C.). Eu cennad arbennig hwythau oedd y Parch. Emrys Thomas - a fu'n gofalu am "Gartrefi Bontnewydd", ac a fu hefyd yn weinidog yn Nefyn.

CYDYMDEIMLO: Chwith iawn yw cofnodi marwolaeth un o gyfeillion dyddiau ysgol yn hen Ysgol Llanddinorwig. Bore dydd Llun y Pasg fe fu Mr Moses Williams, 'Gwylfa', farw ar ddydd hapus yn hanes yr Eglwys Grisynogol. Daw i ben deithio byd yw hi yn hanes rhywun o hyd.

Arwyddion gwanwyn yw gweld yr wyn yn prancio ar y caeau a'r Cennin Pedr yn harddu'r gerddi, ac fe gawn rhyw ymdeimlad o adnewyddiad. Ar y nodyn yma yr wyf am ddiweddu fy nodiadau y tro hwn gan edrych ymlaen mewn gobaith y daw diwedd ar y tywydd gaeafol a gawsom.

Pwyllgor Apêl Lleol - Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990.

Fel yr hysbysebwyd yn eang yn yr ardal yn ddiweddar cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn y Ganolfan leol ar gyfer yr Eisteddfod uchod. Er mai criw bychan o ran nifr a ddaeth i'r cyfarfod llwyddwyd i ethol swyddogion fel a ganlyn:

Cadeirydd: Mrs Margaret Jones, 5 Bro Elidir.

Ysgrifennydd: Mr Glyn Tomos, Pen y Bwlch.

Trysorydd: Mrs Rita Wood, Fron

Y PARCHEDIG HERBERT THOMAS, LLANNOR

Deiniolen a dynoliaeth a garodd
A gwaraidd weriniaeth;
Rhoi'i hunan i wasanaeth
A'i nawdd i Ben Llŷn a wnaeth.

Yn ei frwydr brwdfrydig i'w heniaith
Bu hwn yn arbennig;
Gŵr o hedd a bonheddig,
Gŵr o bwyll heb dwyll na dig.

John Arfon Hughes
Bwlchtocyn
Pwllheli.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O
WELAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWâr O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

Heulog. Deallwyd bod yr Eisteddfod wedi gosod targed o £500 ar gyfer y pentref ac er y bydd codi'r fath swm yn gofyn am waith caled ar ran y pwyllgor a chefnogaeth y pentrefwyr, y teimlad oedd y dylid mynd ati yn ddiymdroi i drefnu gweithgareddau i godi'r arian angenrheidiol. Felly trefnwyd bod cyfarfod pellach yn cael ei gynnal yn

y Ganolfan ar Nos Fercher, Mai 6ed am 7.00 a'r bwriad fydd casglu syniadau at ei gilydd ar gyfer penderfynu pa weithgareddau y gellir eu trefnu i godi arian. Gobaith y pwyllgor yw y bydd cymaint ag sydd yn bosibl o'r pentrefwyr yn gallu dod i'r cyfarfod gyda'u syniadau fel y gellir symud ymlaen wedyn i'w gweithredu. Felly cofiwch ddod i'r cyfarfod.



Ysgol Llanddinorwig 1919



Ysgol Llanddinorwig pa flwyddyn?

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

DARLUN YR YSGOL FABANOD: Mawr ddiolch i Miss J.M. Williams, Caernarfon, gynt o Padarn Stores, Fachwen am ymateb i'r darlun ymddangosodd o ddisgyblion yr Ysgol Fabanod 1922 yn rhifyn Ebrill. Cyfeiria yn ei llythyr mai ei chwaer hynaf Eluned yw'r seithfed o'r chwith yn y rhes ganol a hithau, sef Netta, yw'r chweched o'r chwith yn y rhes flaen. Nid yw Nora yn y llun o gwbl gan mai ond blwydd oed oedd yr adeg y tynnwyd y llun o Diolch yn fawr Miss Williams am y wybodaeth.

DYMUNO'N DDA: Dymunwn wellhad buan i Mrs Lynda Wynne Humphreys, merch Mr Dennis Jones, 11 Trem Eilian sydd wedi bod ers peth amser yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Clatterbridge ac sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd ym Mangor.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos Fercher, Ebrill 1af, cafwyd cyfarfyddiad o'r Gangen a threuliwyd y noson yn trafod materion oedd yn codi o lythyrau misol Mawrth ac Ebrill. Ar Fai 11eg bydd nifer o'r aelodau yn ymweld â Chynhadledd Wanwyn y Sefydliad ym Mhwllheli. Llongyfachwyd Pat Jones ar ei llwyddiant yn ennill y gem sengl badminton yn y gystadleuaeth gynhaliwyd dan nawdd Sefydliad y Merched Arfon yn Y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon ar Fawrth 19. Hi hefyd ynghyd o'r Carol Houston enillodd gem ddwbl a chyflwynir cwpan iddynt yn y Gynhadledd ym Mhwllheli. Rhoddwyd y te gan Mrs Gwyneth Williams a Mrs Joyce Jones. Pat Jones enillodd y wobwr raffl a roddwyd gan Mrs Rhian Jones.

ANRHEGU: Anrhegwyd Mr William Arthur Jones, 5 Trem Eilian gan Gwmni Ferodo, Caernarfon am wasanaeth o bum mlynedd ar hugain, mewn cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau, Ebrill 2il. Derbyniodd hefyd dystysgrif hardd ar yr achlysur. Ein llongyfarchiadau iddo.

MARWOLAETH: Dydd Llun, Ebrill 13eg, yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, bu farw Mr Geogre Ellis, Penrallt yn 76 mlwydd oed. Yr oedd yn gymeriad hoffus, difyr a ffrath ei sgwrs, yn gymwynaswr parod ac yn adnabyddus gan lu o gyfeillion yn y fro. Bu ei angladd preifat yng Nghapel M.C. Brynrefail, lle'r oedd yn aelod ffyddlon, bnawn Iau, Ebrill 16eg ac yn dilyn ym mynwent Llanddeiniolen. Gasanaethwyd gan ei weinidg, Y Parch. John Morris. Cydymdeimlir â'i unig frawd, Mr G. Madoc Ellis, Pwllheli, teulu'r Gors a'r oll o'r neiaint a'r nithoedd yn eu profedigaeth.

LLANBERIS parhad

CYDYMDEIMLO: Ein cydymdeimlad dwysaf â'r rhai canlynol yn eu profedigaeth:

Mr Dennis Jones, Llythyrdy ar golli ei frawd;

Mrs Annie Mary Jones, Stryd Newton ar golli ei brawd;

Mrs Williams, Melrose, Stryd Newton ar golli ei gŵr sef Mr William Williams.

LLONGYFARCHIADAU i dad a thaid, sef Mr Norman Pritchard, Llanrug (gynt o Llanberis) ar ei ben-blwydd yn 65 oed; oddi wrth y plant a'r wyrion a'r wyresau i gyd.

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

YSGOL DAN Y COED: Dymuna'r Prifathro a staff yr ysgol ddiolch i bawb am y gefnogaeth yn noddol plant yn yr ymgyrch i godi arian at gronfa'r ysgol. Bu'r ymgyrch yn hynod lwyddiannus a chasglwyd £271.25. Fe gafwyd argraffydd newydd gyda rhan o'r arian. Bydd yr Ysgol ar gau o Fai 22 - Mehefin 1, sef Gwyliau'r Sulgwyn.

ADRAN BENTREF YR URDD: Mawrth 25ain aeth llond bws o blant i'r Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. Diolchir i'r holl rieni a ddaeth i ofalu am y plant, ac yn arbennig i Anti Carolyn ac Anti Elinor a wneud y trefniadau. Cafwyd Cwis, nos Fawrth, Mawrth 31ain, yng ngofal Dafydd Evans. Ebrill 7ed fe fwynhaodd y plant Helfa Drysor o amgylch yr ysgol, eto yng ngofal Dafydd Evans, ac yna i orffen y noson 'roedd y mamau wedi paratoi lluniaeth ysgafn i'r plant. Fe dderbyiodd pob aelod wy pasg. Diolch i Dafydd Evans am drefnu'r Helfa Drysor ac i'r mamau oll am eu cefnogaeth drwy'r tymor. Diolchir yn arbennig i'r Arweinydd Mrs Delyth Williams, Mrs Elinor Williams y Trysorydd, ac i effeithiolrwydd yr ysgrifenyddes Mrs Carolyn Roberts. Bu'n dymor hynod o lwyddiannus i bob aelod - gemau, cwis, fideo, nofio, sleidiau, pêlwyd, pêldroed, helfa drysor ac eisteddfota - rhywbeth at ddant pawb.

Llongyfarchwn y Parti Dawnsio Gwerin, wedi'i hyfforddi gan Mrs Bethanne Williams, am gael cynaf yn yr Eisteddfod Sir ym Mangor, "Evan's Delight", yw'r ddawns, ond wir "Penisarwaun's Delight" oedd hi b'nawn Sadwrn Mawrth 28ain pan ddyfranwyd Parti Arwel yn gyntaf. Felly "Merthyr Tudful Dyma Ni'n Dod". Carem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu'n hael tuag at y gôst o gludo'r plant i'r Genedlaethol - mae angen swm sylweddol arnom. Bydd Taith Gerdded Noddedig Mai 2ail, o Ddinorwig i Nant Peris yng ngofal Arwel Jones, a Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys Mai 7ed am 6.30. Fe fydd y Parti Dawnsio Gwerin yn perfformio. Pris mynediad 30c, Plant 10c wrth y drws. Bydd byrddau gwerthu yno hefyd. Croeso cynnes i bawb.

PENWYTHNOS GLANLLYN: o Fai 15ed - 17, bydd cyfle i blant o 7 - 15 oed fwynhau'r gwahanol weithgareddau yng Ngwersyll Yr Urdd Glanlllyn. Gobeithio'n wir y bydd y tywydd yn fwy fafrol na'r llynedd!

CAPEL BOSRA: Dydd Gweddi Byd Eang y Chwirydd. Cynhaliwyd y Gwasanaeth Nos Iau, Mawrth 14, am 6.30 p.m. Miss Phyllis Ellis oedd y

Llywydd ac anerchwyd gan Mrs Nant Roberts. Mrs Nansi Jones oedd y cyfeilydd. Bu i lawer o chwiryddyr ardal ymuno yn y gwasanaeth yn eu plith, Mrs Eirlys Jones, Mrs Bessie Williams, Mrs Betty Hughes, Mrs Eluned Porter, Mrs Nansi Jones, Miss Mair Foulkes, Mrs Katie Williams, Mrs Mary Davies, Mrs Eiriona Williams, Mrs Percy Williams, Mrs Delyth Williams, Mrs Elinor Williams, Mrs Ann Ifans, Mrs Elinor Jones a Mrs Pat Larsen. Hyfryd oedd gweld y bobl ifanc yn cymryd rhan hefyd sef Sioned Roberts, Sioned Williams ac Eurgain Haf. Yn ystod y Gwasanaeth talwyd teyrnged i Mrs Jennie Price Jones, a fu farw yn ystod y flwyddyn. Bu Mrs Jones yn ffyddlon iawn i'r achos drwy'r blynyddoedd.

PWYLLGOR NEUADD: Nos Wener, Mawrth 27ain, am 6.30 p.m. cafwyd noson Bingo yng ngofal Helen Owen. Diolch i Helen am ofalu am y noson. Gan fod aelodau'r Urdd yn brysur yn codi arian i fynd i'r Genedlaethol, yr oedd y Pwyllgor yn gytun na chynhelir gweithgareddau'r Neuadd, fis Ebrill na Mai, ond fe dynnir y Clwb Cant Ebrill 30ain, a Mai 22ain. Fe gafwyd adroddiad ariannol - y mae £7,000 yn y Gronfa erbyn hyn. Mis Mehefin, goheithir cael BARBACIW ym Mhant Hywel, ar un o gaeau Arwel a Carys Jones.

CARNIFAL: fydd gweithgaredd Mis Gorffennaf, ac yna Noson Gymdeithasol mewn gwesty cyfagos fydd arlwy mis Awst.

GWELLHAD: Pob dymunaid da am adferiad iechyd buan i Mr Iorwerth Thomas, Bron-y-Gaer wedi triniaeth yn yr ysbyty. Gyda dyfodiad y Gwanwyn, dymunwn wellhad llwyr i bawb sy'n sâl yn y pentref.

DIOLCH: Dymuna Mrs Margaret Williams, Carrog, ddiolch i bawb am y llu cardiau ac anrhegion wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Dymuna Mrs Mathews ddiolch i'r casglwyr a fu o amgylch yn casglu at Gartrefi Cheshire. Diolch i bawb a gyfrannodd - fe gasglwyd £24.64. Casglwyd £36.51 at Gartrefi'r Barnado's a dymuna Mrs Dorothy Lamb ddiolch i bawb am eu haelioni.

DIOLCHIAU: Dymuna, Bobbie, Hugh, Eric, Betty, ac Olwen, plant y diweddar William J. Jones, 13 Bryntirion, Penisarwaun, ddatgan eu gwerthfawrogiad o'r caredigrwydd a'r cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth sydyn o golli tad a thaid annwyl a chariadus.

PROFEDIGAETH: Ein cydymdeimlad llwyrfa â Mrs Annie Williams, Meillionydd wedi colli chwaer yng nghyfraith, hefyd Mr Leslie Jones,

Meillionydd wedi colli brawd yng nghyfraith. Ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Glenys Owen, 1 Llys y Gwynt, wedi colli ewythr.

LLONGYFARCHIAU: I Leonard Naylor, oedd yn un ar hugain oed Ebrill 21ain. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mrs Alice Thomas sy'n dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar Fai 3ydd oddi wrth y teulu oll. Dal i ennill gwobrau mae Dafydd Jones, Bryntirion. Cafodd gyntaf am adrodd dan 7oed yn Eisteddfod Mynytho. Hyfforddir ef gan Mrs Katie Williams, Llys y Gwyn.

CLWB YR HEULWEN: P'nawn Mawrth, Ebrill 21ain treuliwyd orig ddifur yn gwrando ar Mrs Mair Parry, Cwbiau gynt, yn adrodd hanes ei phlentynod. Difur oedd gwrando arni yn dweud hanes y melinau yn eu llawn bri a'r plant i gyd yn mwynhau eu hunain yno. Llongyfarchwyd Miss Anwen Jones, Meillionydd ar ei dyweddiad, a chroesawyd Mrs M.J. Roberts, 5 Llys y Gwynt fel aelod. Dymunwyd gwellhad buan i bawb fu'n sâl, cydymdeimlwyd â theulu Meillionydd a theulu'r diweddar Mrs E.M. Pritchard, Gwynfa. Rhoddwyd y te gan Mrs N. Roberts a Mrs G. Jones. Diolchwyd iddynt gan Mrs K. Williams, 8 Llys y Gwynt, hi hefyd enillodd y raffl. Bydd y cyfarfod

nesaf, b'nawn Mawrth, Mai 19.

EGLWYS SANTES HELEN: Bydd Gyrfa Chwist yn ail ddechrau ar Fai 1af, ac yna bob nos Wener cyntaf a thrydydd o'r mis am 7.30 p.m. Nos Fercher Mai 6ed am 7.00 p.m. cynhelir Ffestri'r Pasg. Bydd Gŵyl Gorawl Eryri yn cael ei chynnal yn Eglwys Sant Padarn, dydd Sul, Mai 31ain gyda Gŵyl y Plant am 2.00 p.m. a Chymun i'r oedolion am 6.00 p.m. Cyhoeddir manylion am gludiant eto yn yr Eglwys.

MARWOLAETH: Yng Nghartref Y Wern, Porthmadog, ar Ebrill 11, yn 65 mlwydd oed by farw Ellen May Pritchard (Nellie May), gynt o Gwynfa, Tai Brynhyfryd, Penisarwaun. Casglodd nifer o'i chyn-gymdogion a llu o gyfeillion i'r gwasanaeth angladd yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun ar Ebrill 16. Gwasanaethpwyd yno, ac yn yr Amlogfa Bangor, gan gyn Ficer y Plwyf, Y Parchedig Aled Edwards nawr ym Motwnnog.

DIOLCH: Dymuna teulu Ellen May Pritchard ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Derbyniasant, yn lle blodau, £101, a bydd hwn yn cael ei drosglwyddo fel a ddywedwyd yn gynharach ar Apêl y Sganiwr.



Ysgol Tan-y-Coed tua 1911

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR
E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394**

W.J. GRIFFITH
PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Merched ...
Dynion ...
Plant ...


I gael trin eich
gwallt yn eich
cartref cysylltwch â

SIAN

MAIRANNEDD
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon 5366

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:
Y FELINHELI 670556



PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

**IEUAN
WILLIAMS**
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a
Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr
a phlant ysgol

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

PAN OEDDWN YN FACHGEN gan CYNAN

Cefais yr hanes canlynol yn Lleufer, sef Cylchgrawn Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yng Nghymru, Cyfol VI, Gaeaf 1950, Rhif 4. Y Golygydd oedd David Thomas, Cyfarwyddwr Adysg yn Arfon, tad Mr. Ariel Tomos, Bron Wylfa, Llanwnda, athaid Miss Angharad Tomos B.A.

Disgirtio ei hun yn fachgen ym Mhwlheli y mae Cynan. Dyma ei eiriau.

"Tref braf neilltuol i fachgen gael ei eni ynddi oedd tref Pwllheli, tua deng mlynedd cyntaf y ganrif hon a hynny am amryw resymau.

Pan oeddwn yn fachgen, Cymraeg oedd iaith y farchnad, iaith y ffair, iaith y bywyd cymdeithasol, a iaith arferol pob siop yn y dref ac eithrio un siop, a elwid gennym ni'r plant yn "siop y Saesnes", (ond ni chofiaf enw'r Saesnes), gyda'i chyflaith cartref o fendigedig goffawdwriaeth, ar y ffordd i'r ysgol. Enwau Cymraeg da oedd uwch ddrysau'r siopau - Siop Goch; Siop Glyn, Siop yr Eryr, Siop Crugan, Siop Pwlldefaid, Siop Caer Rhydderch. Ac yn y siopau hyn, cyn dyfod y combines Seisnig mawr - fe gaech fywyd cymdeithasol hamddenol a chymdogol a nodweddiadol Gymreig. Er enghraifft, wedi i Mrs. Williams a'r ddwy Miss Williams o Sarn Mellteyrn orffen prynu eu nwyddau yn y siop ddillad, fe ymddangosai 'tray' ar y cownter o rywle gyda photiaid o de a bara meny yn rhad ac am ddim, a thra eistedd hwythau ar eu cadeiriau uchel i'w fwynhau, deuai'r siopwr ei hun atynt i sgwrsio ar bob pwnc - o bris yr wyau yw wythnos honno hyd at bregethwyr y Sasiwn yr wythnos nesaf. Gallech fentro y byddai Mr. Williams yntau wedi cyrraedd yno o rywle cyn y diwedd - i ymuno yn y drafodaeth, ac yn y te wrth gwrs.

Er nad enw Cymraeg oedd ar siop fy nghartref i, "Liverpool House", Cymraeg fyddai'r iaith fusnes yno hefyd bob amser, ac eithrio yn nhymor byr yr ymwelwyr haf ie, a Chymraeg da iawn hefyd â thipyn o flas Pen Llŷn arno. A dyna chwi'n

gwybod yn awr pam y mae'n gas gennyf glywed pobl yn ateb "Olreit" neu "very well", mor fynych mewn drama neu stori Gymraeg. Clywed yr ydwyf o hyd fy nain yn ateb "Purion" i geisiadau ei chwsmeriaid. Gwell gair o lawer.

Y tu ôl i'r siop a'r tŷ yr oedd popty mawr a'i holl ryfddodau. Lle braf a chynnes oedd hwnnw i ni'r plant ar noswaith o aeaf a nhad wedi cadw noswyl yn ein hyfforddi mewn adroddiad neu ddadl neu'n adrodd storiâu wrthym o'i gof dihyssbudd. Yr oedd ef, fel fy mam yn ddarlennydd mawr yn Gymraeg a Saesneg, o ddyn na chafodd ddim ond addysg elfennol. Ef a'm harweiniodd gyntaf at farddoniaeth Gymraeg - ond gan nad oedd yn ddigon sicr ohono'i hun ar y mesurau caeth, byddai Tom Lloyd addfwyn, y bardd brinter, yn troi i mewn ar ei dro i'm profi yn y cyganeddion.

Pan oeddwn i'n fachgen, nid chwarae aeroplân na chwarae motor y byddem ni, ond chwarae ceffylau. Eu gyrru, eu pedoli a'u harnesio. Gwyddem enwau Cymraeg pob darn o'r harnais, a byddwn i wrth fy modd yn helpu harnesio ceffylau'r ffermwyr a'u bachu wrth y cerbydau. LLawer ceiniog a gefais wrth wneud hynny - ond yn wir yr oedd cael trin ceffyl ynddo'i hun yn ddigon o wobr fyth. Ond y wobr fwyaf syfrdanol a ddaeth i'm rhan erioed am hynny, oedd yr un a gefais unwaith gan Ellis Car Post, Aberdaron - gyrrwr coetsh enwog dau geffyl "Y Tocia". Yr oeddwn droeon wedi cael y llawenydd o eistedd gydag ef ar y bocs tra gyrrai'r car post i waelod y dref, ond y tro syfrdanol hwnnw mi gefais ddal awenau'r ddau geffyl yn fy llaw fy hun, a hwythau'n llon am hanner milltir ar hyd Lôn yr Ala. Un o freintiau mawr fy mywyd yn fachgen!

Ond y fraint yr eiddigeddwn ati yn fwy na hyd yn oed na chael gyrru'r car post oedd braint y dyn ar ryw fymryn o ferlen fach a dywysai'r stalwyn cawraidd, hardd, drwy'r dref a'r ffair a marchnad, a hwnnw'n

gwehyru dros y stryd.

"Cloch y ffair - ciliwch o'i ffordd". Byddai'r creadur grymus o stalwyn, nwyfus yn trotian fel yr oen wrth ochr y ferlen fach, a'i ryg melyn wedi ei rowlio'n daclus dynn ar ei war, ac yntau'n taflu ei ben yn falchder i gyd o'r rubannau glas a'r cardiau sioe cochion a gydbblethwyd yn ei fwng i gyhoeddi ei aml wobrwyl. A dweud y gwir i chwi, mi ges fy mhlagio'n hir am yr ateb diniwed a rois i ryw weinidog a arhosai dros y Sul yn ein tŷ ni, pan ofynnodd imi:

'Wel, machgen i, beth ydech chi am fod wedi ichi fynd yn ddyn? Pregethwr?'

'Nage wir syr', meddwn innau, 'ond canlyn Stalwyn carneddol gyda'r ferlen fach!'

DEEP LITAR

Lloches a golau llachar - a roddir

Heddiw i rai adar.

Amcanu am wŷ cynnar

Dull yr oed o dwyllo'r iâr.

Nis gwn pwy yw awdur yr englyn. A wyddoch chwi?

FY IAITH

Fy iaith gywrain fyth a garaf
A'i theg eiriau iaith gywiraf,
Iaith araith eirioes
Wrol, fanol foes,
Er f'einioes, a'r fwynaf.

Gro. Owain

Y GYMRAEG

Neud esgud un a'i dysgo,
Nid cywraint ond a'i caro,
Nid mydrwr ond a'i medro,
Nid cynnil ond a'i cano,
Nid pencerdd ond a'i pyngcio,
Nid gwallus ond a gollo
Natur ei iaith, nid da'r wedd,
Nid rhinwedd ond ar hono.

Gro. Owain

SABBATH Y NEF

Un Sabbath anwyl a sai' byth yno,
A Dwyfol lawenydd pur diflino,
Heb awr o alar i beri wyllo,
Nag un ochenaid egwan, na chwyno,
Ond deuawl fawl yn tanio - 'n oestadol

Yn der fwyneiddiol heb derfyn iddo.

Elis Wyn o Wyrfa

EISTEDDFOD BRO MADOG

Mae 32 wedi ymgeisio am y goron yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog a gynhelir ddechrau Awst.

Gofynnwyd eleni am gasgliad o gerddi heb fod mewn cynghanedd gyflawn ac heb fod dros 300 llinell, ar y thema "Breuddwydion", ac yn ychwanrgol i'r Goron a roddir gan Mrs. G. Rowlands a'i merch Menna, er cof am y diweddar William Rowlands, cyn brifathro Ysgol Eifionydd, Porthmadog, mae gwobr ariannol o £400.

Y beirniaid yw Bobi Jones, E.G. Millward, a John Roderick Rees.

Derbyniwyd 13 ymgais ar yr awdl, lle cynigir cadair yr Eisteddfod (Rhodd Clybiau Ffermwyr Ieuaing Eryri a Meirion), a £400 o wobr ariannol.

Cerdd mewn cynghanedd gyflawn heb fod dros 300 llinell ar y testun "Llanw a Thrai" oedd y gofyn, a'r beirniaid yw Gerallt LLOYD Owen, Moses Glyn Jones a Gruffydd Aled Williams.

Ymgeisiodd 16 yng nghystadlaethau y Fedal Ryddiaith, lle y gofynnwyd am gyfres o storiâu byrion cyfoes. Cynigir gwobr ariannol o £400 yma eto, a'r beirniaid yw Eigra Lewis Roberts, Gruffydd Parry a Dafydd Ifans.

Michael Povey, Rhydderch T. Jones a William R. Lewis yw beirniaid y ddrama hir, a chafwyd wyth ymgais yma. Ar-wahân i Dlws

y Ddrama cynigir gwobr ariannol o £400 i'r enillydd.

Dyma rai o'r cystadlaethau mwyaf poblogaidd eraill:

Nofel fer ar gyfer cystadleuwyr sydd heb gyhoeddi nofel 12

Englyn (Testun - Angor) 69

Englyn Ysgafn (Testun - Beddargraff trwnai) 63

Telyneg (Testun - Cymwynas) 43

Soned (Testun - Y Bwlch) 22

Emyn Gŵyl DDewi ar gyfer Gwasanaeth Ysgolion Cynradd neu Uwchradd 48

Deg o Hwiangerdi gwreiddiol ar themâu cyfoes 18

Stori Fer (Testun - Ofn) 28

Deialog rhwng gwleidydd a'i gydwybod 7

Drama Fer 10

Trosi Drama o'r Saesneg 7

Cyfansoddi alaw (Cerdd Dant) 9

Cyfansoddi Emyn-dôn 72

DRAENOG



Am waith chwystrellu galwyni o baent gwyn ar y ffordd, am bris rhesymol - sef am ddim, hefyd chwystrellu tunelli o fwd ar Ymwelwyr Hion Ha', cysyllter â LLanberis 872421

OSMOND SHAW DEINIOLEN

Gwerthu
a thrwsio
Teledu Lliw
Newydd ac Fel
Newydd
GWASANAETH
ATEB
FFÔN 24 AWR
LLANBERIS 870545

Sylwch ar ein cyfeiriad newydd . . .

J M JONES A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol,
Cerrig o bŵb math ar gael.

Ffôn: Caernarfon 2898 (dydd)
Y Felinheli 670124 (nos)

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn:
Waunfawr 552

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir

DYMUNA Mr John H Hughes, Tan y Clogwyn, Llanberis, cyn-Brifathro Ysgol Dolbadarn erbyn hyn, ddatgan ei ddiolchgarwch a'i werthfawrogiad diffuantaf i bawb parthed anrhegion a chyfarhion lu a dderbyniodd ar ei ymddeoliad ar Fawrth 31ain, 1987.

Gwerthfawroga hefyd y gwfnogaeth a'r caredigrwydd a dderbyniodd oddi wrth drigolion Llanberis a Nant Peris yn ystod y cyfnod y bu yn brifathro ar Ysgol Dolbadarn.

DIOLCH: Dymuna Mrs K Evans, 24 Dol Eilian, ddiolch o galon i'w theulu a'i chyfeillion am eu cofion a'u caredigrwydd tuag ati ar ei phen-blwydd yn 87 oed.

YMDDEOLIAD: Dydd Gwener, Ebrill 10fed, gorffennwyd tymor arall ym mywyd yr ysgol. Tymor y gwelwyd ymddeoliad Mr J H Hughes, ar ôl saith mlynedd a hanner o wasanaeth i'r ysgol.

Yn y gwasanaeth boreol fore lau, Ebrill 2il fe gyflwynwyd siec iddo ar ran yr ysgol gan Miss Marion Davies. Talodd y Cyng Francis Jones (Cadeirydd y Llywodraethwyr) deyrnged i Mr Hughes a diolchodd iddo am ei wasanaeth yn ystod yr amser y bu gyda ni.

GWALEDD: Dydd Sul, Mawrth 29ain, cafodd Mr Selwyn Pritchard ei daro'n wael a'i anfon i'r ysbyty. Da clywed ei fod yn gwella. Fel ysgol anfonwn ein cofion ato, ac edrychwn ymlaen at ei weld yn ôl gyda ni wedi cael adferiad llwyr i lawm iechyd.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yng Ngwesty Gwynedd, lle buom yn dathlu Gŵyl ein nawddsant. Llywodddwyd y cyfarfod gan Mrs Betty Humphreys, Nant Peris a darllenwyd y cofnodion a'u harwyddo.

Dymuniwyd gwellhad buan i Mrs Hannah Jones, Mrs Rhons Thomas a Mrs Netta Jones. Rhoddwyd croeso'n ôl i Mrs Nan Owen a oedd wedi bod ar ei gwyliau yn Awstralia yn ddiweddar.

Ein gŵr gwadd am y noson oedd Dr Eurwyn Lloyd Evans o Lanrug yn siarad am hen gymeriadau yr ardal.

Diolchwyd i Dr Evans gan Mrs Nan Owen a Mrs Gwen Edwards.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fawrth 26 dan arweiniad Mrs Hannah Jones. Roeddym yn falch iawn o'i gweld yn ôl gyda ni ac wedi gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty.

Cafwyd Bwrdd Prynu a Gwerthu a gwnaed elw y Sefydliad. Enillydd y raffl oedd Mrs Hannah Jones. Y gwestwragedd oedd Mrs A M Evans, Mrs Katie Morris a Mrs Gwen

Edwards.

DYMUNA Mrs Eunice Jones, Paul a Judith, Dakota, ddiolch o galon i'r theulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli priod a thad annwyl, David Arthur Jones.

Ein diolch i'r meddygon a staff Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd am eu gofal caredig a diolch arbennig i'r meddyddion a'r nyrsu teuluol am eu gofal arbennig. Hefyd am y rhoddion hael tuag at Gronfa Ymchwiliad i'r Gwaed. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH: Dymuna Awen Addie, 'Goleufryn', Stryd Newton, ddatgan ei gwerthfawrogiad i bawb am y caredig wydd a ddangoswyd tuag ati yn ystod ei gwaledd. Diolch yn fawr.

Dymuna Miss Glenys Mair Parry, merch y diweddar Mrs B A Parry, ddiolch am y llu cardiau, rhoddion a blodau a dderbyniwyd yn ystod ei phrofedigaeth. Diolch yn arbennig iawn i Dr D R Hughes, Sister Beth Jones, y Parchn Alun Hawkins a Gwynfor Williams am eu caredigrwydd, hefyd y cymdogion yn enwedig Mrs Diana Pritchard a ffrindiau oll.

Diolch hefyd i Mr Myrddin Pritchard am wneud y trefniadau.

DYMUNA Alan a'r theulu oll ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth ddiweddar o golli mam a nain, sef Mrs Gwyneth Roberts, 38 Stryd Newton, Llanberis. Gwnaethpwyd casgliad anrhydeddus tuag at Ymchwiliad Clefyd Siwgr yn lle blodau ddydd y cynhebrwng.

YN YR YSBYTY: Pob dymuniad da i Mrs Eirlys Jones, Ger y Llyn, 49 Maes Padarn, Llanberis sydd yn yr ysbyty unwaith eto, sef yr Uned Gofal Arbennig Macmillan, Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon.

DIOLCH: Dymuna Eirlys, Ger y Llyn, 49 Maes Padarn, Llanberis ddatgan ei diolch i'w ffrindiau, cymdogion a'r ardal am yr holl gareidigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dychwelyd adref, ac am yr holl anrhegion, cardiau a blodau. Diolch yn fawr iawn i bawb.

DIOLCH: Dymuna Mr William Jones, Dreflan, Ffordd Capel Coch ddatgan ei ddiolch i bawb am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ato tra yn yr ysbyty. Diolch yn fawr i bawb.

DYMUNA Mrs Enid Lloyd Roberts, 56 Maes Padarn, ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau, rhoddion a blodau a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar, ac ar ôl dod adref. Hefyd diolch i feddygon a nyrsus Ward Prysor ac i

Nyrs Beth am eu gofal a'u caredigrwydd.

LLONGYFARCHIADAU: Dymuna Mrs E Pitts, 53 Dol Elidir gyhoeddi dyweddïad ei mab hynaf, David â Diane, unig ferch Mrs L Oglesby, Manceinion. Llongyfarchiadau gan y ddau deulu.

Llongyfarchiadau i Meira Evans, merch Mrs H Jones a'r diweddar O E Jones, 14 Stryd Turner, ar ennill y gadair yn Eisteddfod Bro Ogwr,

Canol Morgannwg.

Llongyfarchiadau i staff Siopy Co-op, Llanberis, ar ennill Tarian yn y cwis i staff Co-op yng Ngwynedd. Y tîm oedd Mary Owen, Jan Owen, Lyn Ellis a Melanie Sellers.

Llongyfarchiadau i Andrew Pitt, 53 Dol Elidir, am gael medal am redeg Traws Gwlad. Mae Andrew yn ddisgybl yn Ysgol Treborth, ac mae llawer medal a tharian ganddo yn awr. Da iawn, dalier ati.

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs Mary Ff Roberts, Cerrigydrudion.

DIOLCH: Dymuna Mair a Robert G. Hughes, 'Dyfrdwy', Carmel a chynt o Faesiglas, Treffynnon, ddiolch o galon i'w theulu, a'u ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd yn ystod eu profedigaeth o golli eu hannwyl fab Arwyn Harding. Diolch am y rhoddion lluosog a dderbyniwyd tuag at Uned Leukemia yr Ysbyty.

Dymuna Eluned Owen 'Dolwen', ddiolch o galon i ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd yn ei phrofedigaeth o golli ei hannwyl chwaer Bessie Roberts.

Dymuna Jennie W. Jones ac Elwyn ac Alwyn ddiolch yn fawr i gyfeillion Nant Peris, ag i'r Parch. Trevor Lewis a Dr. Hughes, Llanberis am bob cymorth yn yr achos lly.

Hoffai pensiynwyr y Nant ddiolch i Mr Ken Jones a Llinos Haf am

ddosbarthu y menynd a'r caws. Diolch yn fawr.

CONFERMASIWN: Ar ddydd Sadwrn Ebrill 11eg, yn y Gadeirlan ym Mangor, conffirmiwyd pedair o ferched y pentref gan Arglwydd Esgob Bangor, Cledan Mears. Y Sul canlynol, sef Sul y Blodau, derbyniodd yr ymgeiswyr, sef Karen Ann Price, Emma a Gwen Griffiths a Llinos Haf Jones, eu cymun cyntaf gan y Parch. A.J. Hawkins yn Eglwys Sant Padarn.

PROFEDIGAETH: Yn dawel yn Ysbyty Maelor, Wrexham ar Ionawr 29ain, ar ôl gwaledd blin bu farw Mrs Bessie Roberts, 7 Smithy Lane, Wrexham, gweddwr diweddar David Tudor - a mam annwyl Olive a Kathleen, a nain Rachel, chwaer hoffus Eluned a'r diweddar Nancy. Yr oedd yn enedigol o'r Nant. Bu'r angladd ddydd Llun, Chwefror 2il, lle y cynhaliwyd gwasanaeth yng Nghapel y Groes. Gwasanaethwyd gan y Parch. Pryderi Llwyd Jones, a'r Parch. Elwyn Hughes, cyn-weinidog, ac yn dilyn yn Amlosgfa Pentre Bychan.

BETWS GARMON

DIOLCH: Dymuna Marian ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd tra yn y llythyrdy.

ADREF O'R YSBYTY: Croeso adref i Mr John Smith, Cilfechyd, ar ôl ei arhosiad yn yr ysbyty.

YN EISIAU: Gohebydd newyddion i'r pentref.

RHOIDDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gronfa'r Eco:

£5: Di enw, Llanrug
£5: E J Owen, Llanbryn-mair
£4: Teulu y diweddar Mrs C A Pritchard, Waunfawr
£3: Mrs J W Jones, Nant Peris
Mr a Mrs Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen
£2: Mrs M Price, 5 Porth Gogledd, Deiniolen
Bethan Diana Jones, 1 Rhes Cynfi, Deiniolen
Mr a Mrs Idwal Jones, 18 Hafod Oleu, Deiniolen
Owen Hughes, 56 Rhydfadog, Deiniolen
Di-enw, Waunfawr a Llanrug
£1: Mrs Ethel Williams, Brookside
Mrs Jennie Williams, 12 Maes Eilian
Dewi Rees Williams, 12 Rhes Ddeiniol
Maria Williams, Waunfawr
Mr a Mrs T A Thomas, Gilfach

CEUNANT

BEDYDD: Bedyddiwyd Iwan Rhys Williams, mab Eleri a Celyth Williams, 9 Tŷ Hen, Waunfawr, yng Nghapel Ceunant, p'nawn Sul, Ebrill 5ed gan y Parch. John Morris. Mae Iwan yn frawd bach i Ffion Mai, ac yn ŵyr i Mr a Mrs Evie Davies, Tan y Graig.

LLONGYFARCHIADAU i Robin ac Evelyn Williams, 'Tyddyn Ni', Ceunant ar enedigaeth eu merch fach 'Ceri' ar Ebrill 8fed. Maent yn dymuno diolch i bawb am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniasant.

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

O FRO'R ECO I WLAD YR ADDEWID

gan Y Parch. Trefor Lewis

Bore Sadwrn, Mawrth 14eg eleni, cychwynodd bws o Lanberis. Dim byd yn hynod yn hynny meddech chi. Ond roedd y bws hwnnw i godi teithwyr o fro'r Eco, Caernarfon, Porthathwy, Deganwy, Bae Colwyn, Llanrwst a Rhuthun, a'u cludo i faes awyr Heathrow, lle'r ymunodd saith arall â'r cwmni. Y Parch. Harri O. Jones, Porthathwy, a minnau ydoedd arweinyddion y cwmni a gynhwysai 35 o deithwyr.

Tua deg o'r gloch nos Sadwrn esgynnodd awyren Boeing 747, yn gwisgo lifrau EL AL, i'r tywyllwch uwchben Llundain, a throi i gyfeiriad Israel. Collwyd dwy awr ar y daith ac yr oedd yn bedwar o'r gloch y bore Sul pan gyrhaeddasom faes awyr Ben Gurion ger Tel Aviv. Wedi casglu pob dim at ei gilydd dyma gychwyn mewn bws i Tiberias. Tybed a gredwch chi hyn? Yr oedd pawb yn teimlo'r oerni, ac yr oedd yn bwrw glaw. Cartrefol iawn!

Saif Tiberias ar lan Môr Galilea neu Llyn Cineret i'r trigolion. Y mae'n dref gyda phoblogaeth o 30,000. Sefydlwyd y ddinas yn 26 Oed Crist gan Herod Antipas er anrhydedd i'r Ymerawdwr Tiberius.

Wedi tamaid o frestwast aeth pawb am y gwely i geisio dal i fyny â'r cwsg, a'r ddwyawr a gollwyd. Yn y prynhawn dechreuodd y bererindod o ddifri. Ein Tywysydd am yr wythnos oedd Haggai, gyda Solomon yn gyrru'r bws. Erbyn diwedd yr wythnos roedd y ddau wedi dod yn gyfeillion i bawb ohonom.

Troi tua'r gogledd a wnaethom gan ddilyn glan Môr Galilea. Y môr yw cronfa ddŵr y wlad, gyda'r loddonon, sy'n tarddu yn agos i fynydd Hermon, yn rhedeg drwyddo ac ymlaen i'r Môr Marw. Dywed daearegwyr nad yw'r môr a'r tirwedd o'i amgylch wedi newid dim yn ystod yr ugain canrif diwethaf a medrwn fod yn siwr ein bod yn sangu daear a droediodd Iesu arni.

Dangosodd Haggai olion Migdal. Yn ôl Josephus roedd 40,000 o bobl yn trigo yno ac yr oedd 230 o gychod pysgota i'w gweld ar lan y môr. Pan orchfygwyd y dref gan Titus danfonwyd 6000 o ddynion i adeiladu Camlas Corinth dan orchymyn Nero. Ond i ni, y ffaith bwysigaf oedd mai dyma Magdala, man geni Mair Magdalen a iachawyd gan Iesu. Hi oedd un o ddilynwyr ffyddlonaf Iesu, gan fod yn bresennol wrth y Groes. Ac wrth gwrs Mair Magdalen oedd y cyntaf wrth y bedd gwag ac a welodd Iesu'n fyw gyntaf. (Ioan 20: 1-4).

Ymlaen â ni nes cyrraedd Capernaum. Yn yr hen ddyddiau roedd Capernaum yn ddinas bwysig ar y briffordd i Ddamascus, gyda marsiandiwy'r yn cyfnewid sidan a pherlyisiau am bysgod a ffrwythau. Pan wrthodwyd Iesu gan ei bobl ei hun yn Nasareth ymsefydlodd yng Nghapernaum, ac yma y cyflawnodd nifer fawr o wyrthiau, a dysgu yn y Synagog. Yng Nghapernaum yr iachawyd gwas y canwriad, y claf o'r parlys, ac yno yr atgyfodwyd merch Jairus.

Ychydig iawn o'r ddinas sydd ar ôl erbyn heddiw ond y mae'r hyn a welir yn mynd â dyn yn ôl i'r ganrif gyntaf Oed Crist. Trwy weithgarwch archaeolegwyr a mynachod Ffranciscaidd canfuwyd olion Synagog o'r drydedd ganrif :

godwyd ar olion y Synagog a adeiladwyd gan y canwriad y cyfeirir ato yn Luc 7. A ninnau'n sefyll ar y llawr gwreiddiol clywsom ddarlenn hanes iachau gwas y canwriad. Yr oedd tri drws i'r synagogau. Caewyd y prif ddrws ond gadawyd y ddau ddrws arall ar agor i hwyr-ddyfodiaid. Byddai ambell i bysgotwr, mae'n debyg, yn ei chael hi'n anodd cyrraedd erbyn amser dechrau'r oedfa. Gerllaw y mae olion tŷ - credir mai Seimon Pedr oedd yn byw yno.

Yna, cawsom brofiad annisgwyl. Trefnodd Haggai ein bod yn cael croesi Môr Galilea. Hanner ffordd ar draws y môr distawyd peiriant y cwch, ac wrth iddo arnofio ar y dŵr llonydd, darllenwyd hanes Iesu'n cerdded ar y tonnau. Roedd yn brofiad bythgofiadwy i bawb, ond roedd rhagor i ddod. Wedi glanio a chael pryd o fwyd, gan gynnwys pysgodyn wedi ei enwi ar ôl Pedr, dechreuasom ar ein taith ar y bws ac esgyn i fynydd y Gwynfyddau. Yn 1937 adeiladwyd eglwys yma gan y Ffranciscaidd. O'r eglwys gwelir golygfa odidog dros Fôr Galilea gyda mynyddoedd y Golan yn y cefndir. Yma, dywed traddodiad, y pregethodd Iesu ei bregeth fawr, Y Bregeth ar y Mynydd. Y mae'r tir yn disgyn yn araf tua'r môr gan ffurfio 'amphitheatre' naturiol. Er bod cryn bellter rhwng copa'r mynydd â'r môr, gall dau ddyn siarad â'i gilydd o'r ddau le. Hawdd iawn oedd dychmygu'r tyrfaoedd yn gwrandao ar Iesu'n dweud "Gwyn eu byd y tlodion yn yr ysbryd, canys eiddynt yw Teyrnas Nefoedd." O amgylch yr eglwys y mae gardd brydferth yng ngofal Adran Lloegr o'r Eglwys Fethodistaidd. Mewn cornel dawel, yng nghysgod y coed, darllenwyd y Gwynfyddau, a chanwyd yr emyn "Rho imi galon lân o Dad."

Treuliwyd munudau dwys yn dwyn ar gof eiriau Iesu yn yr oruwchystafell. "Cymerwch, bwytwch, hwn yw fy gnhorff. Y cwpan hwn yw'r cyfamod newydd yn fy ngwaed. Gwnewch hyn er cof amdanaf." A ninnau'n sefyll ar ddaear sanctaidd rhanwyd y bara a'r gwin.

Disgyn o'r mynydd a dilyn ffordd i Tabgha. Yma y bwydodd Iesu 5,000 gyda phum torth a dau bysgodyn. Ar lawr yr eglwys y mae mosêc yn dangos y torthau a'r pysgod. Gerllaw y mae eglwys arall i gofio am ymddangosiad



"Eglwys y Gwynfyddau"

Iesu i'r disgyblion wedi'r atgyfodiad a rhoi comisiwn i Seimon, "Portha fy wyn. Bugeilia fy nefaid."

Daeth prynhawn bythgofiadwy i ben a dychwelodd pawb i'r gwesty wedi blino'n gorfforol ond wedi eu bwydo'n ysbrydol. Gair olaf Haggai oedd, "Pawb yn y bws am 9 o'r gloch bore yfory." Cewch yr hanes y tro nesaf.

YMDDIHEURIAD AC APÊL

Oherwydd i gymaint o eitemau newyddion gael eu hanfon yn hwyr i'r Golygyddion y mis hwn, bu'n rhaid gadael nifer ohonynt allan o'r papur. Apeliwn felly ar i bawb nodi'r dyddiad a ddangosir ar dudalen 2.



Medai Iesu wrtho: "Portha fy wyn. Bugeilia fy nefaid." (Ioan 21: 15-19).

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt Erw Wen (Caernarfon 670726).

LLONGYFARCHIADAU: I Ceri Ann Roberts, 10 Erw Wen, am ddod yn fuddugol yn yr Unawd dan 12 oed yn Esiteddfod Sir yr Urdd. Dymunwn pob lwc iddi ym Merthyr Tydfil. Hefyd iddi basio'i hail arholiad piano, a'i harholiad telyn gradd 1 gyda merit. Da iawn chdi Ceri. I Lois Angharad Roberts, Gerallt, Erw Wen, ar basio'i arholiad piano cyntaf gyda merit.

DIOLCH: Dymuna'r rhai a dderbyniodd gaws a menynyn ypentref ddiolch ynfawr iawn i'r rhai â'i dosbarthod.

YMADAEL: Yn ystod y mis nesaf

bydd John a Wenna Curd a'i mab bach David yn gadael 1 Erw Wen, ac yn mynd i fyw i Lloegr. Byddwn yn gweld eu colli, ond dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd.

GWELLHAD: Dymunwn wellhad buan i Susan, mech fach 6 wythnos oed Wendy a Peris Thomas, 4 Bryn Gof sydd wedi ei chymryd i'r ysbty.

SIOE'R PENTREF: Dosbarthwyd tafenni ymlaen llaw ynglŷn â'r Adranu Blodau a Llysiau ar gyfer Sioe'r Pentref. Fel arfer, cynhelir y Sioe ym mis Awst a dosberthir y rhagen llawn nes ymlaen. Yn y cyfamser gellir gweld copïau o'r rhaglen gan aelodau o'r Pwyllgor: Clive James, Hafan; Eric Roberts, Gerallt; Ifor Hughes, Lleifor; Dilys Griffiths, Delfryn; Deiniol Hughes, Tŷ Mawr; Arwel Roberts, 3 Erw Wen; Buddug Atkinson, Carreg Llwyd. Gwelir ar y rhaglen ddigon o ddewis ar gyfer gardd fach neu fawr, a phlanhigion i'w tyfu yn y tŷ mewn potiau.

CAPEL: Pregethir yng Nghapel y pentref ar y suliau canlynol fel a ganlyn: Mai 3: Cymanfa Ganu. Dim gwasanaeth yng Nghaeathro.

Mai 10: Gwynfor E. Williams - 10 y bore.

Mai 17: Llew Madoc Jones - 2 y prynhawn.

Mai 24: R. Williams - 2 y prynhawn.

Mai 31: Robert Roberts - 2 y prynhawn.

Cynhelir yr Ysgol Sul hefyd yn y festri. Croeso i bawb.

PLAID CYMRU: Cynhelir cyfarfod agored Nos Wener, Mai 1af, yn yr Hen Ysgol, Bontnewydd am 7.30 yr hwyr. Testun sgwrs gan Meredith Evans fydd "Ambell i Gân". Bydd hon yn noson heb ei hail. Croeso i bawb.



CRIB COCH

Y SGWÂR, LLANRUG

Ffôn Caernarfon 76772

TRIN GWALLT I BAWB

O'R TEULU GAN JEN

Ffoniwch neu galwch i drefnu amser

DEINIOLLEN (parhad o dudalen 12)



Y plant fydd yn cynrychioli Adran Urdd Ysgol Gwaun Gynfi yn Eisteddfod Merthyr Tudful ddiwedd mis Mai.

CYFARFOD CYHOEDDUS: Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus arall yn y Ganolfan, nos Fercher, 22 Ebrill. Hwn oedd y pedwerydd Cyfarfod o'r fath i'w gynnal yn y pentref ers Ionawr 1986, gyda Mr Gwyn Parri, Cynefin, yn Gadeirydd.

Fel yn y cyfarfodydd blaenorol, trafod ansawdd bywyd a'r posibilrwydd o wella amgylchedd y pentref oedd diben y cyfarfod yma eto. Cyhoeddwyd eisoes fod Cyngor Bwrdeisdref Arfon, wedi llwyddo i ddenu grant o £45,000 o'r Swyddfa Gymreig, ac y byddai'r Cyngor Bwrdeisdref yn ychwanegu £15,000 arall at y swm hwnnw er gwario £60,000 yn ystod 1987-88 er gwella amgylchedd y pentref. Croesawyd Mrs Eira Hughes, Dirprwy Brif Swyddog Cynllunio'r Cyngor Bwrdeisdref i'r cyfarfod, ac fe roddodd amlinelliad o'r hyn ellir ei gyflawni dan y gwariant. Cafwyd trafodaeth gyfeillgar a gwahoddwyd y pentref i anfon eu hawgrymiadau ar yr hyn ddymunent hwy ei weld yn cael ei gyflawni at Brif Swyddog Cynllunio Bwrdeisdref Arfon, Cwellyn, Caernarfon. Addawodd Mrs Hughes y byddai'r awgrymiadau adderbynir yn cael sylw mewn cynllun amlinellol fyddai'n cael ei gyflwyno i gymeradwyaeth Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor. Wedi hynny sefydlir Panel arbennig fydd yn cynnwys y Cynghorwyr Jacob James, a Patricia Larsen i oruchwylio'r cynllun, a chynhelir Cyfarfod Cyhoeddus arall i drafod yr holl argymhellion cyn dechrau ar y gwaith. Diolchwyd yn wresog i Mrs Hughes am ei chyfraniad a'i harweiniad i'r Cyfarfod, ac wedi iddi adael, aethpwyd ymlaen â rhaglen y cyfarfod.

Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus 16 Mehefin, 1986. Yn codi o'r rheiny, cafwyd adroddiad gan Mr Hugh T Jones, Trysorydd Pwyllgor Lleol Apêl y Sgannnydd Corff yn mynegi bod £2,800 wedi ei gasglu eisoes at y targed o £3,200 osodwyd i Ddeiniolen a Chlwytybont. Bwriedir gwneud casgliad o dŷ i dŷ cyn diwedd Mehefin er cyrraedd y targed. Diolchodd Mr Jones am y gefnogaeth a gafwyd i'r Apêl.

Bu hir drafod unwaith yn rhagor ar y priodoldeb o godi Canolfan Aml-Bwrpas i'r pentref. Nid oedd llawer o gynnydd wedi'i wneud ers Mehefin 1986, ac er ceisio llwybr clira phendant i Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan, sy'n gyfrifol am edrych i mewn i'r posibilrwydd o godi Canolfan Aml-Bwrpas newydd, gofynwyd i'r rhai oedd yn y Cyfarfod hwn i amlgyu a oeddynt yn fodlon ar y Ganolfan bresennol, neu a ddymunent bod ymchwiliad mwy manwl i'w wneud at addasu capel Disgwylfa i'r pwrpas, ynteu a ddymunent weld codi canolfan newydd ar safle'r Ysgol Feithrin. Roedd mwyafrif mawr o blaid ymholi am addasu Capel Disgwylfa, gan bwyso hefyd ar Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan i symud rhagblaen yn y mater.

Trafodwyd cynnal Cystadleuaeth Stryd Daclusaf yn ystod yr haf, a theimlwyd mai priodol iawn fyddai hynny, pe bai ond i gefnogi'r gwariant o £60,000 gyhoeddwyd ynghynt yn y Cyfarfod hwn. Ymddiriedwyd y trefniadau ynglŷn â'r Gystadleuaeth i'r cyfeillion rheini fu'n ymhel â'r syniad am gystadleuaeth o'r fath llynedd. Cyhoeddwyd fod y Panel Pentref am drefnu Disgo yng Ngorffennaf, a gwahoddwyd gwirfoddolwyr i gymryd cyfrifoldeb am y noson honno. Manteisiwyd ar y cyfle i gyhoeddi fod Cyngor Arfon, yn ymddwyn ar ran Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen, wedi llwyddo i gael cefnogaeth yr 'MSC' i noddi cynllun i lanhau gwely'r Afon Caledffrwd. Bydd y cynllun yn golygu swyddi am flwyddyn i'r di-waith, ac mae hysbyseb i'r perwyl yn ymddangos yn y Ganolfan Waith yng Nghaernarfon.



John C Thomas yn cychwyn ar daith beic 30 milltir, i godi arian ar gyfer plant Ysgol Gwaun Gynfi fynd i gystadlu i Ferthyr Tudful.

NEWYDDION Y SEINDORF: Llongyfarchiadau i Dylan Williams, 1 Pentre Helen ar gael ei benodi i fod yn aelod o Seindorf Ieuencid Cymru. Hefyd Iwan Williams, 1 Rhos Faenol, sydd wedi cael ei benodi fel *Reserve*. Mae Dylan yn chwarae'r Tenor Horn ac Iwan yn chwarae'r Cornet.

Bydd y Seindorf yn ymddangos mewn Cyngerdd yn Eisteddfod Genedlaethol Porthmadog

Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am Fis Ebrill oedd:

£20: Mrs E A Williams, Arfon House.

£15: M Thomas, Caernarfon

£10: Rhif 94.

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

Dyddiadur y Mis

Sadwrn, Mai 2: PENISARWAUN: Yr Urdd. Taith Gerdded nodedig.

Sul, Mai 3: YR ARDAL: Croesywaun, Cymanfa Ganu Ysgolion Sul, Dosbarth Caernarfon am 1.30 a 5.30 o'r gloch.

Mercher, Mai 6: PENISARWAUN: Eglwys Santes Helen, Ffestri'r Pasg.

Iau, Mai 7: YR ARDAL: Etholiadau Cyngor Dosbarth.

WAUNFAWR: Sefydliad y Merched PENISARWAUN: Yr Urdd. Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 o'r gloch.

DEINIOLLEN: Cymdeithas Chwiorydd Unedig yr Ofalaeth.

Gwener, Mai 8: BETHEL: Taith gerdded yr Urdd.

WAUNFAWR: Yr Urdd. Taith gerdded nodedig.

YSGOL BRYNREFAIL: Cyfarfod i sefydlu Cymdeithas Rhieni ac Athrawon am 7.00 o'r gloch.

Sadwrn, Mai 9: YR ARDAL: Gŵyl Wanwyn Merched y Wawr ym Mhlas Menai, Felinheli.

Mawrth, Mai 12: LLANRUG: Merched y Wawr. Noson yng nghwmni Maureen Rhys a John Ogwen.

Mercher, Mai 13: BETHEL: Merched y Wawr. Noson gyda Aelodau Cangen Rhostryfan.

Gwener, Mai 15: BETHEL: Yr Urdd. Disgo yn y Neuadd.

Mawrth, Mai 19: PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen.

Iau, Mai 21: LLANRUG: Cymdeithas y Chwiorydd Pontrhythallt am 2.00 o'r gloch.

Gwener, Mai 22: BETHEL: Yr Urdd. Noson Paned a Chrempog yn y Neuadd.

WAUNFAWR: Yr Urdd. Cân Actol yn y Ganolfan am 7.00 o'r gloch.

Mai 22 - Mehefin 1: YR ARDAL: Gwyliau Gwanwyn yr Ysgolion.

Mai 26-30: MERTHYR TUDFUL: Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru.

Sul, Mai 31: EGLWYS SANT PADARN: Gŵyl Gorawl Eryri. Gŵyl y Plant am 2.00 o'r gloch. Cymun am 6.00 o'r gloch.

MEHEFIN

Mercher, Mehefin 17: LLANRUG: Hafan Elan. Trip i Rhyl. Manylion Caernarfon 5600.

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

Cynhelir

**CYFARFOD
BLYNYDDOL
Y GYMDEITHAS**
yn y
**Snowdonia Park Hotel,
Waunfawr oddeutu 9.00pm
Nos Fercher, Mai 20ed**

Cyn hynny trefnwyd HELFA HANES a fydd yn dechrau yn y lle troi yn ôl ger llaw mynedfa Ysgol Uwchradd Brynrefail Llanrug am 6.30pm.

Croeso i aelodau hen a newydd.

Byddai o gymorth i'r trefniadau petasai pawb sydd am gymryd rhan yn yr **HelFa Hanes** yn rhoi eu henwau i'r Ysgrifennydd ymlaen llaw er mwyn gwneud yn siwr fod car i bawb!

Bydd cyw iar a sglodion mewn basged ar gael yn y gwesty ond rhaid archebu ymlaen llaw trwy roi enwau i'r Ysgrifennydd (Caernarfon 5605) erbyn Mai 17eg fan hwyraf.



Perchennog: E.P. Hughes

**MODURDY DOLYDD
GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562**

CHWARAEON

PÊL-DROED

Mae lle i ymfalchio yn yr ardal mai dau dim lleol sydd ar frig Cyngghrair Gwynedd ar ddiwedd y tymor cyntaf ar ôl ei hail sefydlu. Llanberis yw'r pencampwyr a Llanrug yn ail teilwng iddynt. Llongyfarchiadau hefyd i Iwan Williams, Rheolwr Llanberis ar ei ethol i reoli tîm y Gynghrair yn erbyn Cyngghrair Clwyd ddydd Iau nesaf. Yn naturiol iawn mae'n cynnwys saith o'r Darrans a dau o Llanrug yn ei garfan fydd yn chwarae ym Mae Colwyn.

Nid yw'r tymor drosodd i'r naill dim na'r llall, gan mai mis Mai yn draddodiadol yw cyfnod y semis a'r ffinals.

Y Sadwrn nesaf, Mai yr ail, bydd Llanberis yn cyfarfod Bethesda ar gae Bangor yn rownd Cyn-derfynol Cwpan Barritt, hyn yn dilyn eu buddugoliaeth wych yn erbyn y Waen (Chirk) yn y rownd ddiwethaf. Rwy'n deall for Alun Roberts, un o gefnogwyr selocaf y tîm wedi addo shafio pob blewyn oddiar ei ben os bydd i Llanberis ennill y Cwpan! Yna ar y 5ed, ar gae Bangor eto, ffinaol Cwpan Gwynedd yn erbyn y Coleg Normal.

Yn dilyn eu llwyddiant y Sadwrn diwethaf yn rownd gyn-derfynol Tarian Eryri yn erbyn y Coleg Normal, byddant

yn cyfarfod Llanrug ar yr Oval yng Nghaernarfon ar y 9fed. Bu'n rhaid i Llanrug guro Llanfairpwll i gyrraedd y ffinaol. Hon fydd siawns olaf Llanrug i ennill tlws o unrhyw fath y tymor hwn. Bydd yn gêm ddiddorol i ddweud y lleiaf.

Ni fu timau Cyngghrair Sain Caernarfon a'r Cylch yr ardal mor llwyddiannus. Ymddengys y bydd ail dim Llanrug yn ail neu drydydd, ac mae Bethel wedi gorffen eu tymor yn ail o waelod y tabl. Deallaf fod amheuaeth a fydd tîm yno y flwyddyn nesaf, hyn yn deillio o ddiffyg cefnogaeth yn y pentre.

LLONGYFARCHIADAU

Mae'n bleser nodi llwyddiant nifer o dimau lleol yn myd Snwcer a Pwl fel daw eu tymor hwythau i ben. Gresyn nad oes cynrychiolydd o bob tîm yn barod i anfon adroddiadau misol i'r Eco, ond diolch i rai ohonynt am ein hysbysu o'r canlyniadau terfynol.

Gleision Llanrug yw pencampwyr Adran A Cyngghrair Snwcer Bangor a'r Cylch, gyda Duon Deiniolen tua chanol y tabl a Chochion Llanrug ychydig yn is na hwy.

Yn Adran B, Duon Llanberis ddaeth i'r brig gyda Chochion Deiniolen yn ail. Llanberis hefyd, y Gleision, yw pencampwyr Adran C.

Tîm Penbont, Llanrug enillodd ail

adran Cyngghrair Pwl Caernarfon a'r Cylch, ac o ganlyniad fe'u dyrchafir y tymor nesaf i'r Adran Gyntaf. Bu'r hogiau'n ddiguro drwy'r tymor ar eu bwrdd eu hunain ac ni fu neb yn drech na Hefin Pritchard yn eu 24 gêm (er i rai ddod yn agos iawn!) Chwaraewyr gorau'r tîm oedd Arwel Williams (ennill 25 allan o 30) a Phil Lee.



Rhai aelodau o dîm buddugol Penbont.

CRASFA IAWN I'R GWYDDELOD

Daeth tyrfa dda i gae Eithin Duon fore Llun y Pasg i wyllo Llanrug yn erbyn tîm Mount Merion o Ddilyn. Mae teithiau o'r fath yn weddol gyffredin bellach, gyda chlybiau o'r Ynys Werdd yn treulio pen-wythnosau yng Ngogledd Cymru, a'r timau lleol yn eu tro yn hwylio yno o Gaergybi. Yn wir bydd Llanberis yn treulio'r pen-wythnos Mai 28 i 31 yno, gan chwarae nifer o gemau.

Bu'r Gwyddelod yn anlwcus yn eu gêm gyntaf, gan golli o 3 gôl i 2 yn erbyn tîm Cyngghrair Gogledd Cymru Porthmadog, a chan ystyried fod o leiaf

ddau ymhlith y garfan wedi cynrychioli'r Iwerddon ar lefel ieuenctid, 'roedd cryn bryder ymysg chwaraewyr Llanrug ynglŷn â safon yr ymwelwyr.

Doedd dim sail i'w amheuo, er hynny, gan iddynt ennill yn hawdd o 6 gôl i 2. Siomedig ar y cyfan fu chwarae'r tîm o Gynghrair Amatur Dilyn, ag eithro'r bygythiad parhaol o dŷ Alan Smith, un o'u chwaraewyr canol cae. Ef fu'n gyfrifol am eu dwy gôl, gyda David John Brailsford, John Williams (3) a Hefin Pritchard (2) yn rhwydo dros y tîm lleol.




Tîm Llanrug a'u hymwelwyr o Ddilyn.

TEGID YN LLUNDAIN

Faint o amser gymerech chi i redeg chwe milltir ar hugain deudwch? Neu gerdded o Ben-y-groes i Borthmadog ac yn ôl? Ond peidiwch â phoeni, nid pawb sydd yn gwirioni 'run fath naci, fydd dim rhaid i chi wneud y fath wrhydri, fe aiff Tegid yn eich lle.

Marathon Llundain yw'r ras fwyaf ym Mhrydain. Yn ôl nifer y cystadleuwyr a'r un gaiff fwyaf o sylw gan y cyfryngau o bell ffordd. Bydd amryw o aelodau Clwb Rhedwyr Eryri yn rhedeg eleni eto, ac yn eu plith Tegid Roberts o Lanllyfni, un o redwyr gorau'r clwb, ac yn wir un o redwyr ffordd gorau Gogledd Cymru. Cymerodd ran mewn sawl marathon dros y blynyddoedd gan ennill rhai yn y Bala a'r Bermo a dod o fewn y deg cyntaf mewn dwy farathon boblogaidd iawn y llynedd, rhai Dilyn a'r Mersi. Tipyn o gamp o gysidro bod miloedd yn rhedeg y ddwy ras.

Ar Fai 10fed bydd Tegid yn rhedeg Marathon Llundain am y tro cyntaf. Cafodd hwyl arbennig o dda mewn rاس dros yr wythnosau diwethaf a bydd yn gobeithio gwneud amser da yn Llundain. Ar yr un pryd bydd yn codi arian i Bwyllgor Ieuenctid ac Adloniant Eisteddfod yr Urdd, Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990 drwy eich



Tegid — pob lwc iddo.

gwahodd i ddyfalu faint o amser a gymer i gwblhau'r ras. Mae tocynnau ar werth yn eich ardal yn barod, prynwch lyfr i gefnogi Tegid, sydd bob amser yn barod i helpu pob achos da yn ei ardal, fel ei dad gynt.

Fe wn i beth yw amser gorau Tegid mewn marathon hyd yn hyn, ond ddyweda'i ddim wrthych!

Thâl hi ddim i bawb gael yr ateb cywir.

Dewi Tomos
Gwelfor,
Rhostryfan.

PYSGOTA

Adroddiad HP Hughes


Siomedig iawn oedd y gefnogaeth a gafwyd yng nghystadleuaeth Padarn, ond serch hynny cafwyd diwrnod pleserus gan y rhai a gymerodd ran yng nghanol y glaw a'r gwynt. Yr enillydd oedd Dafydd Jones, Penisarwaun, gydag aelod ieuanc arall sef Dafydd Llewelyn Jones, Bethel yn cael y 'sgodyn trymaf (gweler llun y ddau isod gyda Chadeirydd y Gymdeithas, Mr Maurice Jones).

Ar yr 11eg o Ebrill, cynhaliwyd cystadleuaeth Llyn Dywarchen. Cafwyd nifer dda yma gyda dros 70 o frithyll yr enfys yn dod i'r rhwyd. Yr enwair a ddaeth gyntaf oedd J K Williams, Penygroes gyda 4 am 5 pwys 4 owns. Rhannwyd gwobr y pysgodyn trymaf yn adran yr oedolion rhwng R Roberts, Penygroes ac E Roberts, Clynnog gyda physgod 1 pwys 13 owns yr un, ond y gorau oedd Justin Roberts, Porthmadog yn adran yr ieuenctid gyda 45 brithyll, y trymaf yn 2 bwys 2 owns. Cyflwynwyd y gwobrau gan Mr Aled Evans, Llywydd y Gymdeithas.

Cafodd dau o'r aelodau y fraind o bysgota yn y gystadleuaeth olaf i ddewis tîm Cymru i'r bencampwriaeth ryngwladol yn Loch Conn yn Iwerydd ar Fai 28. Y ddau oedd Harry W Owen, Talysarn a H P Hughes, Bethel. Llongyfarchiadau i Harry ar ennill ei le yn y tîm, y diwethaf i gael y fraind hon oedd Oscar Evans, Bethel, rhyw bedair blynedd yn ôl.

Mae'r Sewin wedi dechrau rhedeg yn Afon Seiont, gyda Goronwy Morris, Llanrug yn cael y cyntaf yng nghyffiniau Pontrhythallt, ei bwysau oedd 2 bwys a hanner.

Peidiwch ac anghofio'r Disgo a Chyw Iâr yng Nglan Gwna nos Sadwrn, 16 o Fai.



Maurice Jones, Dafydd Llewelyn a Dafydd Jones.